# ECO'R WYDDFA

RHIF 2 EBRILL 1976 PRIS : 8g

# DIM ETO...

## RHAI CYNGHORWYR AM OHIRIO CYNLLUN CANOLFAN AMGYLCHEDD AR LAN LLYN PADARN.

**Ar ôl bod yn bresennol mewn cyfarfod yn Siambr y Cyngor Sir ar Fawrth 10fed, mynegodd sawl cynghorydd gwahoddedig bryder ynglŷn â rhai agweddau o'r cynllun a roed ger eu bron. Mewn llythyr a anfonwyd i Mr. Iorwerth Ellis, BCCT Dinorwig, gofynnodd y cynghorwyr yn garedig iddynt ohirio'r cynllun a threfnu cyfarfod brys i drafod eu syniadau hwy, a fyddai o fudd i'r holl ardal.**

**Y cynghorwyr a arwyddodd y llythyr oedd y Cynghorydd Mrs. P. Larsen, y Cynghorydd Samuel Jones a'r Cynghorydd Charles Wyn Jones. Er nad oeddynt yn bresennol yn y cyfarfod, mynegodd y Cynghorydd Owain Myfyr Parry, Mr. Selwyn Griffith a Mr. Gwyndaf Jones, dau glerc Cynghorau Cymuned lleol, y buasent hwythau yn croesawu cyfarfod brys i drafod y cynllun ymhellach.**

Cafodd gohebydd Eco'r Wyddfa ar ddeall mai'r rheswm pam na wrthwynebwyd yr egwyddor sylfaenol yn y cyfarfod yng Nghaernarfon oedd am nad oeddynt wedi cael unrhyw wybodaeth ymlaen llaw am y cynllun cymleth ac o'r herwydd nid oeddynt wedi cael amser i'w drafod.

### CYNLLUNIAU

Dangoswyd model a chynlluniau o ganolfan gan y pensaer, Syr Fredrick Gibberd, ac amlinellodd y Cadeirydd, Dr. Tom Pritchard o'r Cyngor Gwarchod Natur, y defnydd y gobeithid ei wneud o'r Ganolfan Amgylchedd.

(1) Amgueddfa Amgylchedd – gyda chyfleusterau i arddangos yn barhaol wahanol agweddau ar hanes lleol, economi, daeareg, hanes cymdeithasol lleol ac ati.

(2) Canolfan Wybodaeth am Eryri – yn darparu gwybodaeth i'r ymwelwyr sy'n ymweld ag Eryri.

(3) Canolfan Cymuned – gyda chyfleusterau i'r gymdeithas leol gan gynnwys neuadd, darlithfa a chegin.

### MYNEGI PRYDER

Ar ran yr aelodau etholedig lleol, mynegwyd pryder gan y Cynghorydd T. W. Williams, Llanberis, am nad ymgynghorwyd â'r cynrychiolwyr ynghynt. Gofynnodd hefyd pa sicrwydd a fyddai y gallai'r gymdeithas leol ddefnyddio'r ganolfan fel y dymunent pan fyddai'r adeilad yn gyflawn ac yn cael ei redeg gan yr Amgueddfa Genedlaethol o Gaerdydd. Pwysleisiodd Mr. D. Bassett ar ran yr Amgueddfa ei fod eisoes yn rhan o bolisi'r Amgueddfa yng Nghaerdydd i annog y gymdeithas leol i ddefnyddio lleoedd o'r math hwn gymaint ag yr oedd modd. Pwysleisiodd y byddai ef yn dymuno gwneud yr un peth yn Llanberis.

Gofynnodd y Cynghorwyr Pat Larsen (Penisarwaun) a Charles Jones (Llanrug) am sicrwydd y

Parhad tud 2. col 3

# GWANWYN CREULON

**Mae Heddlu Gwynedd am wneud apêl at berchnogion cŵn i wneud yn siŵr fod eu hanifeiliaid dan reolaeth gyson.**

**Yn ystod y mis a aeth heibio – rhwng nos Sadwrn, Mawrth 13 a bore Llun, Mawrth 15 – daethpwyd o hyd i dair dafad feichiog wedi eu lladd ar fferm Erw Hywel, Llanrug.**

Yn ei adroddiad i Eco'r Wyddfa dywed y Prif Arolygydd Roberts, "nid yn unig fod dafad sy'n cario oen yn werth tua £57 i'r ffermwr, ond golygfa drist a difrifol iawn yw gweld diadell o ddefaid wedi eu llarpio gan gŵn rheibus.

Erfynnir yn daer ar bobl i beidio â pharcio ceir yn ymyl ysgolion y fro gan fod hyn yn achosi perygl mawr. Plant ydi plant, a 'waeth faint o rybuddion a roddir iddynt, maent yn aml yn rhedeg i'r ffordd neu'n ceisio croesi rhwng ceir wedi parcio. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n anodd iawn i yrrwyr eu gweld mewn digon o bryd, ac mae perygl i ddamwain ddrwg ddigwydd. Un pentref lle cafwyd y broblem hon yw Llanrug, ond nid dyma'r unig le.



Apêl arall yw i bobl fod yn fwy gwyliadwrus rhag lladron. Cafwyd nifer o achosion yn ddiweddar o ladron yn sleifio i mewn i dai gwag a dwyn arian a nwyddau. Cafwyd achosion ymhob rhan o'r fro. Mae'r Heddlu yn awyddus i bobl roi gwybod iddynt os gwelant unrhyw ddigwyddiad amheus, ni waeth pa mor ddinod yr ymddengys ar y pryd. Mae'n well ganddynt siwrnai seithug na cholli lleidr.

# GWERTHU AFON

## DAN DRWYN Y GYMDEITHAS BYSGOTA LEOL

**Mae Stad Glynllifon ar fin gwerthu'r hawl i bysgota 1450 llath o'r afon Rhythallt rhwng Cwm-y-Glo a Llanrug i ŵr o'r enw Mr. Graham, cyfreithiwr o Lerpwl, am oddeutu £3,000. Bwriadant wneud hyn er fod Cymdeithas Bysgotwyr Seiont, Gwyrfai a Llyfni, sef Cymdeithas y pysgotwyr lleol, yn barod i gynnig mwy na'r swm y bydd Mr. Graham yn ei dalu.**

Pan welwyd fod yr hawliau pysgota ar werth, cyfarfu Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas, sydd ag 800 o aelodau, ar Fawrth 4ydd, a chytunwyd yn unfrydol i gynnig am yr hawl pysgota mewn arwerthiant a oedd i'w chynnal yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis, nos Wener, Mawrth 26ain. Cytunwyd hefyd ar y pris uchaf yr oeddent yn barod i'w dalu. Er na ellir datgelu'r union ffigwr, gellir dweud ei fod dipyn yn uwch na £3,000.

Ond pan aeth Mr. Adrian Roberts, Ysgrifennydd y Gymdeithas, i archwilio'r contractau yn Swyddfeydd Stad Glynllifon, saith niwrnod cyn yr arwerthiant, yn unol â chyfarwyddiadau'r hysbysebion yn y papurau lleol, canfu fod yr afon eisoes wedi ei gwerthu ac na fyddid yn cynnal ocsiwn wedi'r cyfan. Er eu bod yn awyddus dros ben i bwrcasu'r hawl pysgota ni chafodd y Gymdeithas Bysgotwyr gyfle i gynnig amdano.

Pan ofynnodd un o ohebwyr Eco'r Wyddfa i Mr. Adrian Roberts beth oedd ei deimladau 'roedd yn gyndyn o gondemnio Stad Glynllifon am yr hyn a wnaethant. 'Roedd o'r farn y gallai'r afon fod wedi syrthio i ddwylo gwaeth na Mr. Graham, a fu, meddai ef, yn rhentu'r darn hwn o'r afon gan Stad Glynllifon ers rhai blynyddoedd. 'Roedd y Gymdeithas yn ofni y buasai rhyw gonsortiwm newydd, dieithr, neu hyd yn oed yr Awdurdod Dŵr yn prynu'r hawl (roedd yr Awdurdod Dŵr wedi prynu hawliau pysgota rhannau o Lyn Cwellyn, Llyn Padarn ac Afon Seiont bum mlynedd yn ôl, a cheisio codi'r rhent a dalai'r Gymdeithas Bysgota dros 400%). Mae'n hawdd deall safbwynt Mr. Roberts tuag at Stad Glynllifon oherwydd mae'r Stad yn berchen nifer o hawliau pysgota eraill yn y cylch, a phrin y byddai codi helynt yn helpu siawns y Gymdeithas i fedru prynu hawliau eraill yn y dyfodol pe deuent ar y farchnad.

### BARN ECO'R WYDDFA

Ond mae Eco'r Wyddfa yn rhydd i siarad yn blaen ac o'r farn fod Stad Glynllifon (sy'n eiddo'r Arglwydd Newborough) wedi trin y Gymdeithas Bysgota yn siabi iawn yn y mater hwn. Onid chwys a llafur gwerin y fro hon a gynhyrchodd gyfoeth Stad Glynllifon, y cyfoeth a'u galluogodd i feddiannu'r afonydd yn y lle cyntaf? Onid oes rhywfaint o ddyled gan yr Arglwydd Newborough i'r ardaloedd a'i cyfoethogodd? Os yw Stad Glynllifon am werthu'r hawliau ar delerau ffafriol (ac mae'n amlwg eu bod yn ffafriol os oedd Cymdeithas Bysgotwyr Seiont, Gwyrfai a Llyfni yn barod i dalu mwy) onid i'r trigolion lleol y dylid dangos y ffafriaeth hwn?

# LLYTHYRAU

Hafan,
Caeathro,
Caernarfon.

*Annwyl Olygydd,*

*Darllenais y rhifyn cyntaf o Eco'r Wyddfa gyda diddordeb mawr.*

*Rhwng ardal Lleu ac ardal Eco'r Wyddfa y mae pentrefi Waunfawr a Chaeathro. Siaredais gyda rhai o drigolion y pentrefi hyn a hoffai llawer ohonynt fod yn rhan o ddalgylch Eco'r Wyddfa Y mae Waunfawr o dan yr Wyddfa, ac yr oedd o dan ddylanwad chwarel Dinorwig. Nid oes digon o boblogaeth yn yr ardal hon i sefydlu papur bro arall.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*Clive James.*

*NEWYDDION O'R BONC*

*Syr,*

*Carwn ddiolch o galon i chwi am yr orig hapus a gefais wrth ddarllen Eco'r Wyddfa. Pan oedd y chwarel yn gweithio nid oedd yr un newydd yn digwydd ym mro'r chwarel nad oedd yr holl weithwyr yn gwybod amdano ychydig oriau ar ôl y digwydd. Dyna fyddai'r sgwrs ar ganiad, yn y wal a'r sied, cwt mochal ffiar a'r caban. Yr oedd ardaloedd y chwareli yn gymdeithas glos, a chynrychiolaeth o bob ardal ym mro Eco'r Wyddfa yn gweithio ymhob ponc. Ond yr ydym wedi mynd yn ddiarth ar ôl i'r chwarel gau. Gwelaf obaith yn y papur hwn i ddod â ni eto yn un gymdeithas glos.*

*"Hen Chwarelwr"*

*HEN YSGOL BRYNREFAIL*

*15 Upper Road,*
*Parkston Pool,*
*Dorset.*

*Annwyl Syr,*

*Dymunwn i ddechrau lwyddiant i Eco'r Wyddfa. Rwyf wedi gadael Fachwen ers deg mlynedd ar hugain bellach.*

*Gwelais erthygl yn eich papur yn sôn am ysgol Brynrefail mewn perygl o fod yn dŷ llety i weithwyr trydan. Fel cyn-ddisgybl o'r hen ysgol, yr wyf yn erfyn ar y cyn-ddisgyblion a phawb yn yr ardaloedd i geisio gwneud yr ysgol yn ganolfan i ieuenctid pob ardal. Mae llythyr o Lanberis yn eich papur yn dweud am y plant yn cerdded y strydoedd heb le i fynd. Byddaf yn edrych ymlaen i glywed fod yr ysgol yn ganolfan i bawb.*

*Yn gywir,*
*Wilfred A. Jones*
*(gynt o Fachwen)*



*Plant Ysgol Babanod Brynrefail yn cael hwyl gyda'r crempog.*

**DIM ETO...(Parhad o dudalen 1)** byddai'r pentrefi o amgylch Llanberis yn elwa hefyd oddi wrth y datblygiad. Os mai math o iawndal gan y Bwrdd Cynhyrchu Trydan am greu anhwylustod a thrafferthion oedd y cynllun hwn, yna 'roedd hi'n bwysig cydnabod i bentrefi eraill ddioddef hefyd, meddai'r Cynghorydd Pat Larsen.

Yn bresennol yn y cyfarfod 'roedd Dr. Tom Pritchard (Cadeirydd). Yn cynrychioli'r Cyngor Sir 'roedd y Cynghorwyr Gwyn Oliver Jones, R. Glyn Williams, Trefor W. Williams a phum swyddog. Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeisdref Arfon 'roedd y Cynghorwyr Francis Jones, Sam Jones, Charles Wyn Jones a Patricia Larsen, ac un swyddog. Yn cynrychioli Cyngor Cymuned Llanberis — y Cynghorwyr Tom Jones, K. H. Jones, Richard Jones a Gwynfor Williams. Yn cynrychioli'r Bwrdd Trydan, y Mri. Peter Williams, A. Pugh ac E. Roberts. Cynrychiolwyd yr Amgueddfa Genedlaethol gan Mr. Douglas Bassett. Y penseiri — Syr Fredrick Gibberd a Peter Fleig (Fredrick & Gibberd & Partners).

* * * * * *

Yn dilyn y llythyr a anfonwyd cynhaliwyd cyfarfod yng Nglyn Rhonwy, Llanberis, am 3.15, Mawrth 29, i drafod y mater ymhellach. Cafwyd trafodaeth fuddiol a phenderfynwyd cael cyfarfod â rhai o brif swyddogion y Bwrdd Trydan.

**Beth amdanoch chi, drigolion yr ardal? Croesawn unrhyw sylwadau yn Eco'r Wyddfa.**

# DRAENOG

**Un ar y naw ydi Draenog. Wrth gropian hyd ffyrdd y Fro — o Ddeiniolen i Ddinorwig, o Fethel i Frynrefail, Llanrug i Lanberis, dydi o'n methu dim. Mae'n hel pob rhyw hen sgandal, yn clustfeinio am hanesion trwstan, wrth 'i fodd efo jôcs a thynnu coes. Maen nhw'n deud 'i fod o'n pigo ar bawb yn ei dro!**

**Pwy ydi o, meddech? Wel, ie wir, pwy? Pan ofynnodd y Golygydd y cwestiwn allweddol, y cyfan wnaeth Draenog oedd cyrlio'n belen a deud dim. Mae o'n greadur swil, 'dach chi'n gweld. Felly, os ydach chi am gysylltu ag o gyda rhyw stori fach bryfoclyd neu ddigri, gwnewch hynny drwy'r Golygydd. Buasai Draenog yn falch iawn o glywed oddi wrthych, achos allith o byth fod ym mhobman ar unwaith. Cofiwch amdano, a gwyliwch rhagddo — mae o'n hogi'i nodwydda' medden nhw!**

Ni ddylai Saeson sy'n teithio ar Reilffordd Llyn Llanberis gael unrhyw drafferth i ddweud yr enwau "Gilfach Ddu" a "Cei Llydan" eleni oherwydd mae amserlen a thaflen hysbysrwydd y cwmni ar gyfer 1976 (sy'n uniaith Saesneg, gyda llaw) yn rhoi'r cyngor goleuedig canlynol :

Am Gilfach Ddu —
say "Gil-vak-Thee"
ac am Cei Llydan —
say "Kay Thlid-ann"

"Gil-vak-Thee", "Kay Thlid-ann" myn uffar i. A oes raid darnio'r hen iaith fel hyn 'for ddy sec of ywar Inglish frens'? Barn Draenog yw
REELFORTH TH-LYNN THLAN BERRIES - RAG YK QUILLYTH


**ECO'R WYDDFA**

RHIF 2 EBRILL 1976

Golygydd : *Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, Glanffynnon Llanrug.*

*Ffôn : Caernarfon 3719.*

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Nant Peris.*



Theatr Cymru

Byw yn y Wlad

Rifiw Gymraeg

THEATR GWYNEDD
Bangor
Nos Iau — Nos Sadwrn
27 - 29 Mai
am 7.30p.m.
*Tocynnau:* 80c
*o Swyddfa'r Theatr*
*(Bangor 51708)*

# LLANRUG

## NEWYDDION Y BAND

Ar Ebrill 5, cynhelir cyfarfod blynyddol, sef y pwyllgor cyffredinol yn y 'Bandroom' am 7.30. Croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb yn y band. Yn y cyfamser, bydd y band wedi bod yn cystadlu yn Preston yn Adran Gogledd Orllewinol o'r "National Brass Band Championship of Gt. Britain." Bydd y tri cyntaf yn mynd ymlaen i'r Albert Hall i gystadlu. Pob lwc i'r band.

## CYMDEITHAS LENYDDOL CAPEL MAWR

Cafodd y Gymdeithas eu cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis nos Lun, Mawrth 1. Daeth cynulliad da ynghyd i fwynhau gwledd hynod o flasus. Ar ôl y cinio, mwynhawyd eitemau mewn cyd-adrodd ac adloniant ysgafn gan aelodau'r gymdeithas. Diolchwyd i bawb gan y llywydd, y Parch. W.O.Roberts.

## DAWNSIO

Gwahoddir chwi i ymuno â Chlwb Dawnsio "Olde Tyme" a "Modern Sequence" yn y pentref. Cynhelir y cyfarfodydd yn yr ysgol gynradd bob nos Wener o 8 hyd 10 o'r gloch. Y cyfarwyddwyr yw Marion a John Hughes-Evans, M.U.K.A.P.T.D. Mynediad i mewn fydd 20c ac mae hyn yn cynnwys lluniaeth ysgafn.

## CYFARFOD GWEDDI CHWIORYDD Y BYD

Cynhaliwyd y cyfarfod yng Nghapel Pontrhythallt am 2 o'r gloch ar Fawrth 5.

## MERCHED Y WAWR

Ar Fawrth y 9fed, cafwyd cyfarfod o "Frethyn Cartref". Thema y rhaglen hon oedd 'Molawd Arfon", a'r cyflwynydd oedd Miss Ph. M. Ellis. Cymerwyd rhan gan oddeutu 30 o aelodau'r côr, côr cerdd dant a chôr adrodd. Canwyd unawdau gan Mrs. J.C.Williams, Mrs. Roberta Griffith, a Mrs. Mary Roberts, ac unawd ar y delyn gan Mrs. Megan Roberts. Yr adroddwyr unigol oedd : Mrs. Beti A. Williams, Mrs. Beryl Thomas a Mrs. G. M. Jones. Gofalwyd am y canu gan Mrs. Lovatt, Brwynog, a'r côr adrodd gan Mrs. L. Horman, gyda Mrs. Megan Roberts yn cyfeilio.

Mrs. M. Evans, Lloc, y llywydd, oedd yn y gadair a diolchwyd gan Mrs. Nansi Roberts.

Bydd y gangen yn ymweld â changen Penygroes ar y 19eg o'r mis gyda'r un rhaglen.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn y Sefydliad Coffa ar Ebrill 13. Ceir sgwrs gan Dr. Eirwen Gwynn.

## OXFAM

Hoffem ddiolch i bawb a fu mor garedig â chyfrannu at gronfa'r daeargryn yn Guatamala. Casglwyd £67.

## CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR

Cafwyd Noson Goffi dan nawdd y Gymdeithas nos Iau, Mawrth 4. Rhoddwyd y coffi gan Mrs. M. Lewis, Madryn, Mrs. M. Jones, Brynhyfryd a Mrs. H. Lewis, Fron Helyg. Methodd Mrs. M. Jones a bod yn bresennol oherwydd gwaeledd ei mam, a chymerwyd ei lle gan Mrs. Beryl Thomas, Gerallt. Rhoddwyd lliain bwrdd hardd at wasanaeth y capel gan Mr. a Mrs. John Williams, Gweledfa, er cof am rieni Mrs. Williams. Dechreuwyd drwy ddefosiwn a llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch. W.O.Roberts a ddiolchodd i bawb am lwyddiant y noson, gan gofio'r rhai a fethasant fod yno oherwydd gwaeledd.

## BEDYDDIO

Yn oedfa'r bore, Sul Mawrth 7, yn y Capel Mawr bedyddiwyd Ceryl Mair, merch fach Mr. a Mrs. Elwyn Thomas Roberts, Elan Wen gan y gweinidog y Parch. W.O. Roberts.

## GWASANAETH DERBYN

Mewn gwasanaeth arbennig a gynhaliwyd nos Sul, Mawrth 7, yn y Capel Mawr, derbyniodd y gweinidog y Parch. W.O.Roberts, 13 o bobl ieuanc yn gyflawn aelodau o'i eglwys. Gweinyddwyd yr ordinhad o Swper yr Arglwydd. Y rhai a dderbyniwyd oedd Gwawr Davies, Ann Griffith, Clive Wyn Griffith, Carys Glyn Jones, Gwenda Jones, John Robert Jones, Dewi Prys Owen, Robert Arfon Owen, Karon Wyn Owen, Carol Ann Roberts, Catherine West, Ann Williams a Gareth Williams. Cyflwynwyd tystysgrif i bob un o'r bobl ieuanc. Estynnodd y gweinidog ddeheulaw i gymdeithas iddynt gan ddymuno bendith yr Arglwydd arnynt.

## UNDEB Y MAMAU

Cyfarfu aelodau Undeb y Mamau yn y Rheithordy ar nos Iau, Mawrth 4ydd o dan lywyddiaeth Mrs. Williams, Y Rheithordy. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Rheithor. Y siaradwr gwadd oedd Mrs. Mary Lloyd Williams a chafwyd sgwrs ddiddorol ac addysgiadol ganddi ar Rannu yr Arian Brenhinol yn Abaty Westminster ar Ddydd Iau Cablyd. Darparwyd y te gan Mrs. Williams, y Rheithordy.

## NOSON GOFFI

Cynhaliwyd Noson Goffi hynod o lwyddiannus gan aelodau Undeb y Mamau a'u cyfeillion yn yr Ysgol Gynradd ar nos Iau, Mawrth 11. Gwnaed elw o £76.60 ac fe'i rhoddir i helpu gwaith canolfan y rhai sy'n dioddef o nam meddyliol, Caernarfon. Trefnir Noson Goffi arall yn ysgol Cwm-y-glo ar Ebrill 6 ac fe roir elw'r noson hon hefyd at yr un achos. Fe ddymunwn ddiolch i Mr. Cledwyn Williams, y prifathro, am roi caniatâd i ddefnyddio'r ysgol a'r cantîn at y gwaith, ac i Mrs. Joan Williams a'i chyfeillion am eu parodrwydd i helpu a gwneud y noson yn un mor llwyddiannus.

## GENEDIGAETH

Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. C. J. Williams, Prysgol. Ganed iddynt fab (Jonathan) ar Chwefror 28.

## CYMDEITHAS LENYDDOL PONTRHYTHALLT, BRYNGWYN, HERMON a THAN-Y-COED

Daeth tymor y Gymdeithas i ben eleni ar nos Fawrth, Mawrth 2 gyda swper Gwyl Ddewi yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis. Y siaradwr gwadd oedd Mrs. Olwen Jones, Caernarfon, a rhoddodd anerchiad oedd yn ysbrydoliaeth i bawb a'i clywodd. Galwodd yn daer arnom i warchod ein hetifeddiaeth fel Cymry ac i sefyll yn y bwlch.



Aelodau o Fand Llanrug a fydd yn cymryd rhan yn Adran Gogledd Orllewinol o'r "National Brass Band Championships of Great Britain".

## COFIO ANN GRIFFITHS

Nos Fercher, Mawrth 17, yn festri'r Capel Mawr cynhaliwyd Seiat o dan nawdd Cyfarfod Dosbarth Eglwysi Presbyteraidd cylch Llanberis. Mater y Seiat oedd "Cofio daucanmlwyddiant geni Ann Griffiths". Cafwyd agoriad graenus a goleuedig gan Mr. G. T. Roberts, Erw Gaer, Llanrug. Llywyddwyd gan y Parch. W.O. Roberts a siaradwyd ymhellach gan y Parch. John Owen, Llanberis, Mr. H. Jones, Llanberis, a Mr. J. G. Jones, Llanrug. Cyfeiliwyd gan Mr. L. G. Jones, Llanrug.

## DERBYN YN GYFLAWN AELOD

Yn oedfa bore Sul diwethaf, Mawrth 21, derbyniwyd Doris Adlam yn aelod cyflawn o Eglwys M.C. Pontrhythallt. Gwasanaethwyd gan y gweinidog pryd y gweinyddwyd yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd.

## CYMDEITHAS LENYDDOL CAPEL MAWR

Cafwyd hanes ei thaith i Awstralia gan Miss Nerys W. Jones, Caernarfon. Llywyddwyd y noson gan Mrs. W.O.Roberts, Llys Eiddon, a siaradwyd ymhellach gan Mr. Gwilym Williams, Bryn Eifion. Diolchwyd i Miss N. Jones gan Mr. J.W.Owen, Llain Delyn, a Mrs Beryl Thomas, Gerallt.

## GOBEITHLU Capel Mawr

Nos Lun, Chwefror 23, dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Petula Williams, Regent House, a Sarah Morris, Lleiniau. Dangoswyd dwy ffilm i'r plant gan Mrs. Nansi Roberts, Llys Eiddion. Gofalodd Mr. John Williams, Gweledfa, am y projector. Llywyddwyd gan y Parch. W.O.Roberts. Hwn oedd cyfarfod olaf y Gobeithlu am y tymor.

## O'R YSBYTY

Da clywed fod Gwenan, merch fach deufis oed Mr. a Mrs. Tony Parry, 1 Afon Rhos, wedi dod adref o'r ysbyty. Hefyd fod Mrs. Morfina Cadwaladr, 50 Glanffynnon, wedi gwella ar ôl cael triniaeth yn yr ysbyty. Dymunwn adferiad buan iddynt. Rydym hefyd yn falch o glywed fod Mrs. Myfi Roberts, Tai Plas Tirion, yn gwella ar ôl ei hanffawd.

*TIP I RAS*
*Y GRAND NATIONAL*
*gan Sam Selog*

*Swllt bob ffordd ar 'Tregaron',*
*Mae'n neidiwr da, rwy'n siŵr,*
*Ond os yw'r wraig yn fodlon,*
*Eich crys ar 'Ffordd Ci Dŵr'.*
*(Ottersway)*

STORFA
Mace
S.&E.
Jones
Llanrug
FFÔN: Caernarfon 2796
BLODAU A FFRWYTHAU YW EIN HARBENIGRWYDD

S. JONES
CYFANWERTHWR FFRWYTHAU
(WHOLESALE FRUITERER)
Y STORFA
LLANRUG
FFÔN
CAERNARFON 2790


# O SENEDDAU'R FRO

**Bydd y Dr. Tom Pritchard o'r Warchodfa Natur yn cyfarfod Cyngor Llanberis yn y Nant ar Ebrill 1 i roi amlinelliad iddynt o gynlluniau'r Ganolfan.**

**Yn ystod y mis cafwyd cwynion o Lanrug oherwydd golau cyhoeddus anfoddhaol, ac anfonwyd cais at yr Awdurdod Trydan i ofyn iddynt osod bylbiau cryfach.**

- Mae'r gweithgarwch ar ffyrdd osgoi Cwm-y-Glo yn achosi peth anhwylustod fel y gellir disgwyl ac mae dwy lamp gyhoeddus wedi diflannu — un ger y Fricsan a'r llall ger Carreg y Fran.
- Mae gobeithion y bydd yn oleuedig iawn yn ardal Deiniolen yn o fuan. Mae'r goleuadau sodiwm y bu'r Cyngor yn erfyn amdanynt yn cael eu gosod ar hyn o bryd.
- Mae problemau cau, a newid cwrs llwybrau cyhoeddus oherwydd Cynllun Dinorwig yn parhau i achosi peth anhwylustod, a bydd dirprwyaeth o Gyngor Llanddeiniolen yn cyfarfod swyddogion y Bwrdd Trydan i drafod problemau sy'n ymwneud a'r plwy yn gyffredinol.
- Ceir cwynion wythnosol o Fethel am nad yw'r lorri ludw yn galw'n rheolaidd fel y dylai ar ddydd Iau.
- Mae'n dymor etholiad eto. Os carech wasanaethu eich ardal ar Gyngor Arfon — dyma'ch cyfle. Gofalwch anfon eich papur enwebu i mewn cyn hanner dydd Ebrill 8. Efallai y cewch gario'r label 'Cynghorydd' heb frwydr etholiad, ond os ymddengys gwrthwynebydd, yna brwydr y bocs balot amdani ar y 6 o Fai. Dyma gyfle gwych i'r cannoedd hynny sy'n gweld bai ar bob cynghorydd ynte? — Rwan, beth amdani — dyma eich cyfle i gyflawni gwyrthiau.
- Bydd cyfarfod cyhoeddus yng nghanolfan Llanberis ar yr 8fed o Ebrill a chynrychiolydd y Cyngor Cymdeithas yn y cyfarfod fydd Mr. Selyf Hughes.
- Mr. Llion Jones, Llwyn Eilian, a gafodd ei gyfethol i lenwi'r sedd wag ar Gyngor Llanberis.
- Mae Cyngor Llanrug yn cael trafferthion gyda'r Bwrdd Trydan ynglyn a llwybrau cyhoeddus. Ymddengys iddynt gau llwybr y Fricsan, Cwm-y-Glo, heb ymgynghori o gwbl â'r Cyngor.
- Ys gwn i ai Mr. Hugh Parry, Rhiwlas, sydd wedi rhoi'r gwasanaeth ffyddlonaf i'w ardal fel cynghorydd. Mae'n aelod ffyddlon o Gyngor Cymdeithas Llanddeiniolen ers dros 50 mlynedd ac arferai gerdded am flynyddoedd o Riwlas dros Gaer Mynydd pan arferid cynnal cyfarfodydd y cyngor yn y gynghorfa.
- Dros 50 mlynedd o wasanaeth diflino i'w fro, ac ni chafodd erioed yr 'un ddimai goch y delyn" o dâl na chostau am ei wasanaeth. Ys gwn i sawl tro y cerddodd adref o'r Cyngor yn wlyb at ei groen a diwrnod caled o waith yn chwarel y Penrhyn yn ei ddisgwyl y bore wedyn? Ydi, mae o'n dal yr un mor ffyddlon yng nghyfarfodydd Cymdeithas Llanddeiniolen. Ydi'r bobl iawn yn cael eu hanrhydeddu am eu gwasanaeth, dwedwch? Ydi'r Frenhines wedi clywed am Hugh Parry a'i debyg? — Halen y ddaear.

Yn ôl at yr Etholiad yna. Cofiwch fotio i'r un iawn — hwnnw sy'n addo popeth ichi ac am ostwng y dreth 'run pryd.



**Mr. JOHN REES JONES**

- **Penodwyd Mr. John Rees Jones yn glerc Cyngor Plwyf Llanberis ym Mehefin 1949 i ddilyn y diweddar Mr. Tom Owen (Ianc).**

Pleser yw cael y cyfle yma i ddiolch iddo am y blynyddoedd maith a roddodd i'r swydd ac iddo gyflawni ei waith bob amser mor ddyfal a di-ymhongar. Bu drws London House yn un o'r drysau prysuraf yn Llanberis, a phob amser byddai John yn fwy na balch i gael y cyfle i gynorthwyo neu gynghori unrhyw un a alwai. Mae llawer o'r pentref yn ddyledus iddo ef a Menna ei wraig.

Gwelodd newidiadau a datblygiadau syfrdanol tra'n dal y swydd yma mewn Llywodraeth Leol. Gwelodd system fodern carthffosiaeth yn cael ei chwblhau; palmant ar hyd pentref Llanberis; cangen gyntaf Llyfrgell y Sir yn cael ei hadeiladu; a gwelodd a chroesawodd gydweithio agosach o lawer rhwng y Cynghorau. Bu yng nghanol y "frwydr rhent" a rhoddodd ef a'r cyngor arweiniad i'r tenantiaid i ymwrthod rhag i'r stad ennill y dydd.

Rhoddodd saith mlynedd fel swyddog cyswllt yn paratoi ar gyfer Chwaraeon y Gymanwlad.

Pob dymuniad da, John, a gobeithio y cewch flynyddoedd i hamddena ac i fwynhau solas ar lan y llyn ac i droedio'r ardal sydd mor agos at eich calon.

# PENISARWAUN



*Parti Dawnsio Gwerin Ysgol Penisarwaun a gymerodd ran yng Nghyngerdd Eco'r Wyddfa.*

## PARTI HEULWEN

Rhwng gwasanaethau ar nos Suliau a Nosweithiau Llawen mae'r parti wedi cynnal deugain cyfarfod.

## CLWB YR HEULWEN

Byddant yn cynnal eu cyfarfod bob pedwerydd pnawn Mawrth yn y mis. Yn y cyfarfod y mis hwn yr oedd Mr. John Evans, Clwt-y-bont, yn eu diddori gyda hen hanesion o'r chwarel. Y mis nesaf (ar y 27ain) bydd y Parch. S.H.Williams yn eu diddori. Dewiswyd y swyddogion a ganlyn am y ddwy flynedd nesaf : Llywydd: Mrs. H. Williams, Is-lywydd : Metron Jones, Glanllyn. Ysgrifennydd: Mr. Percy Williams. Ysgrifennydd Ariannol: Mrs. N. M. Pritchard. Trysorydd: Mrs. Rees Thomas. Mae rhai o'r aelodau yn dod o Lanrug a Phontrhythallt.

## CYNGOR ARFON

Mae'r Cynghorydd lleol yn ceisio gyda Chyngor Arfon cael camfa yn mynd o Fryneglwys at yr ysgol er mwyn diogelwch y plant.

## MAES CHWARAE

Da oedd deall fod Cyngor Arfon am osod mwy o offer chwarae yn y cae.

## CYFARFOD GWEDDI

Cynhaliwyd gwasanaeth yng Nghapel Bosra nos Wener, Mawrth 5 i ddathlu Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd. Mrs. B. Mowll oedd yn arwain y gwasanaeth a rhoed yr anerchiad gan Mrs. Nansi Jones, Meillionydd. Cymerwyd rhan hefyd gan Mrs. Arthur Ellis, Mrs. Humphrey Williams, Mrs. Katie Williams, Mrs. L. Porter, Mrs. Percy Williams, Mrs. Mary Davies, Mrs. M. Green, Miss Carol Jones, Miss Doris Adlam, Miss Gwenda Griffith, Miss Ann Owen, Miss Anwen Jones, Miss Bronwen R. Hughes, Mrs. J. Williams. Mrs. Eluned Jones, Miss Marian Jones a Mrs. P. Larsen. Y cyfeilydd oedd Mrs. Owen, Minffordd.


## CLWB IEUENCTID

Llongyfarchiadau i'r tim, sef Bronwen Rees Hughes, Anwen Jones, Olaf Cai Larsen a Glyn Mowll am ddod yn bedwerydd allan o unarddeg tim mewn cystadleuaeth yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon, i glybiau ieuenctid.

## SEFYDLIAD Y MERCHED

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth o Sefydliad y Merched yn yr ysgol nos Fawrth, Mawrth 23. Llywyddwyd gan Mrs. Porter. Llongyfarchwyd Mrs. G. Lewis, Pen Bwll Goch, ar ddod yn nain a dymunwyd yn dda i'w mab a'i merch yng nghyfraith ar enedigaeth y ferch fach, Sioned. Dywedodd Mrs. Porter eu bod i gyd yn llawenhau fod Ella Wyn Williams yn gwella. Cydymdeimlwyd a Mr. a Mrs. Ieuan Williams, Glyn Euron, ym marwolaeth chwaer Mr. Williams, ac hefyd a'r fam, sef Mrs. Williams o Nefyn , sydd wedi bod yma gyda ni yn y Sefydliad. Cydymdeimlwyd hefyd a Mr. a Mrs. W.J.Jones, 13 Bryntirion, a gollodd ewythr a modryb o Gaernarfon. Cofiwyd am amryw o'r aelodau fu'n cwyno a dymunwyd yn dda iddynt. Croesawyd Mrs. Richards o'r Groeslon i'r Sefydliad a chafwyd arddangosfa hynod o dda ar waith papur. Diolchwyd iddi gan Mrs. Percy Williams ac i roddwyr y te, sef Mrs. Rees Thomas, Mrs. Williams, Meillionydd a Miss Ella Wyn Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs. Beti Hughes.

Cynhelir Chwist yn Neuadd yr Eglwys, nos Wener, Ebrill 30.

# DEINIOLEN

### MYNWENT MACPELAH

Mewn cyfarfod o Bwyllgor Mynwent Macpelah a gynhaliwyd nos Wener, Mawrth 20, 1976, gwerthfawrogwyd gwasanaeth ffyddlon y diweddar Mr W.R.Hughes (Cefnywaen) yn ei swydd fel Ysgrifennydd y Pwyllgor am flynyddoedd maith. Cyflawnodd ei ddyletswyddau mewn modd distaw, diffwdan a bu ei arweiniad bob amser yn ymarferol a doeth. Yn yr un cyfarfod lleisiwyd canmoliaeth am wasanaeth cyn-Lywydd y Pwyllgor, y diweddar Mr R. Jones (Ysgoldy) a fu'n llywyddu'r Pwyllgor am y tair blynedd diwethaf. Cydymdeimlwyd â theuluoedd y ddau frawd.

Yn y cyfarfod uchod bu trafod manwl ar yr agweddau hynny fu'n pryderu'r Pwyllgor yn y gorffennol, a thra llwyddwyd i gyfarfod rhai rhwystrau ariannol, erys anawsterau, a bydd y pwyllgor yn ddiolchgar am bob rhodd ariannol gwirfoddol tuag at dreuliau'r fynwent. Etholwyd y canlynol yn Swyddogion y Pwyllgor : Llywydd — Mr Rennel Williams (Dinorwig MC); Trysorydd — Mr Arthur Owen (Ebenezer); Ysgrifennydd — Mr Robert Thomas Jones (Libanus).

**Gwahoddir unrhyw berson neu bersonau â diddordeb mewn ymgymeryd â thorri gwair a thacluso'r Fynwent i ymofyn telerau a chyflwyno eu henwau i'r Ysgrifennydd yn 12 Rhydfadog cyn Ebrill 30ain, 1976.**

### YMDDEOLIAD GWEINIDOG

Rhoddodd y Parch. Stanley H. Williams rybudd i dair eglwys ei ofal, 'Disgwylfa', Deiniolen; "Ysgoldy," Clwt-y-Bont a "Glasgoed", Penisarwaun, y bydd yn ymddeol o'i ofalaeth Mehefin 30, 1976. Dechreuodd ar ei waith yma dros dair blynedd ar ddeg yn ôl, ar ddydd Calan 1963. Ei ofalaeth gyntaf fel gweinidog oedd Garth, Llangollen, Bethel, Acrefair a Hyfrydle, Cefn Mawr. Sul i'w gofio fu ei Sul cyntaf fel bugail oblegid dyna'r dydd y torrodd y rhyfel allan, sef Medi 3, 1939. Wedi ychydig dros bum mlynedd symudodd o sir Ddinbych i sir Drefaldwyn, a bu am rai blynyddoedd yn gofalu am ddwy eglwys yn ardal Meifod, nes mynd i'r bywyd priodasol a symud i sir Feirionnydd i ofalu am eglwysi Maentwrog Uchaf a Maentwrog Isaf. Bu ef a'i briod yno am chwe mlynedd a hanner, pryd y derbyniodd alwad i ofalu am eglwysi 'Peniel', Trefriw a 'Horeb,' Nant Bwlch-yr-Heyrn. Yno y bu hyd ei ddyfodiad i Ddeiniolen ac i'r Henaduriaeth y cychwynnodd ohoni.

**Bwriedir recordio'r wasanaeth fore Sul o eglwys Disgwylfa ar Fehefin 20, a'i ddarlledu yn "Oedfa'r Bore" ar y radio y mis yn dilyn. Gwahoddir, lle mae hynny'n hwylus, aelodau o eglwysi eraill y pentref i ymuno yn yr addoliad.**

### SEFYDLIAD Y MERCHED

Nos Fercher, Mawrth 3, daeth tyrfa dda o ddynion a merched i Ysgol Gwaun Gynfi ar wahoddiad Sefydliad y Merched i gael Noson Lawen. Rhoddwyd croeso iddynt gan y Llywydd, Mrs M.A.Thomas ac yna arweiniwyd y cyfarfod yn hwyliog iawn gan y Parch Ronald Roberts. Cafwyd cyngerdd eithriadol o dda o ganu, adrodd a dwy sgets. Yna paned dda a rhannu tocynnau raffl. Yr enillydd cyntaf oedd Mr Huw Williams, Stryd Tabernacl, a'r ail oedd Mrs M. Thomas, Tai'r Vaynol. Diolchodd Mr W. Hughes, 7 Tai Caradog, yn wresog iawn i'r Sefydliad ac eiliwyd gan Mr Huw Williams. Dymuna'r Sefydliad ddiolch i bawb am roddion at y rafflau a hefyd i Mr Ieuan Williams am gludo pawb oedd angen eu cario yn ôl a blaen yn ddi-dâl.

Nos Lun, Mawrth 15, aeth Parti Sefydliad y merched i gynnal Noson Lawen i Blas Pen Gwaith, Llanberis. Wel, dyna noson arbennig i'r Sefydliad a phobl Pen Gwaith! 'Roedd fel aduniad! 'Roedd rhywun yn 'nabod pawb yno, ac felly cafwyd noson hwyliog iawn. Diolchwyd yn gynnes i'r Parti a chrefu am iddynt frysio yno eto.

### CYNGOR EGLWYSI

Penderfynodd Cyngor Eglwysi'r pentref estyn gwahoddiad i Undeb Dirwest Gogledd Cymru gynnal ei Gynhadledd Flynyddol am eleni yn Neiniolen. Ni phenderfynwyd dyddiad y cyfarfodydd fydd yn cael eu cynnal yng Nghapel Disgwylfa.



## Arloeswyr Trafnidiaeth

Darlun yw'r uchod o'r bws cyntaf bwrcaswyd yn 1920 gan y diweddar Mr. J. W. Hughes a'i feibion William Morris a'r diweddar Griffith. Griffith Hughes — oedd gyda llaw y cyntaf i yrru bws i lawr y Fachwen — yw gyrrwr y bws sydd yn y darlun. Yr oedd y bws ar gychwyn ar drip gyda rhai o bentrefwyr Deiniolen. Bydd y gwybodus yn adnabod y bws fel *Y Type Daimler*, a'r craff yn sylwi ar yr olwynion solet a'r lampau carbide.

Edrydd Mr. W.M. Hughes sydd yn byw yn Rhiwen o hyd, (ac erbyn hyn yn ŵr ifanc 87 mlwydd oed), fel roedd y brif ffordd yn y dyddiau cynnar rheini yn hynod gul a throellog, a chan nad oedd yr arferiad o dario'r ffordd wedi'i gychwyn, roedd rhaid i fws Rhiwen drafaelio orau y gallai dros arwynebedd o gerrig miniog.

Yn y dyddiau hynny arferai'r chwarelwyr gerdded i'w gwaith yn N'norwig haf a gaeaf beth bynnag fyddai'r tywydd hyd nes i Mr. J.W.Hughes a'i feibion ddod i'r adwy fel arloeswyr a sefydlu gwasanaeth dyddiol i gludo'r gweithwyr yn ôl a blaen i'r chwarel. Roedd perthynas arbennig rhwng teithiwr a gyrrwr yr adeg hynny hefyd — megis y nos Sadwrn honno y gwthiodd 107 o deithwyr i un o fysiau'r Rhiwen oedd ar gychwyn o Faes Caernarfon am Ddeiniolen! Pan werthwyd y busnes i Gwmni Crosville yn 1932 rhoddwyd clo ar bennod arbennig yn hanes pentrefi'r fro.

### MERCHED Y WAWR

Nos Wener, Mawrth 12, aeth aelodau'r Gangen a rhai cyfeillion eraill i ddathlu Gŵyl Ddewi i westy Glantraeth, Môn. Wedi cinio blasus, cafwyd nifer o eitemau gan barti yn cynnwys Mrs Mair G. Jones, Mrs Marian Williams, Mrs Menna W. Jones, Mrs Elen W. Williams, Mrs Valmai Williams, Mrs M. Wyn Williams a Mrs G. Evans. Cyfeiliwyd gan Mrs B. May Williams. Yn dilyn, unodd y criw â pharti o Dalwrn oedd hefyd yno i ginio, a chafwyd amser difyr yn canu alawon a cherddi i gyfeiliant telyn. Tystiodd pawb iddynt gael noson hwyliog a diddan.

### PERSONOL

Croeso cynnes i Mrs Olwen Landers (Olwen Evans, Garnedd, gynt) sydd ar ymweliad â'i hen ardal a'r teulu. Cyn mynd trosodd i Ganada ugain mlynedd yn ôl, 'roedd yn athrawes yn Abergele, a bu'n dysgu yng Nghanada nes iddi briodi a setlo i lawr yn Salmon Arm, British Columbia. Dyma'r pedwerydd tro iddi ddod 'adre' a'r tro diwethaf oedd ddeng mlynedd yn ôl, pryd roedd ei gŵr a'r teulu yn gallu dod gyda hi. Y tro hwn, ni allent ddod oherwydd nad oedd yn wyliau ysgol. Y mae Mrs Landers yn aros gyda'i brawd, Ellis Evans a'i wraig Caroline yn 2 Tai Cynfi. Bydd yn hedfan yn ôl ddiwedd Mawrth, a dymunwn iddi daith hwylus.

### PRIODAS ARIAN

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mr a Mrs Arthur Rowlands, 17 Rhyd Fadog, Deiniolen, ar achlysur dathlu eu priodas arian ar Fawrth 26.

### I'R COLEG

Llongyfarchion i Miss Gwyneth Roberts, merch 17 oed Mr a Mrs Meredydd Roberts, Aberystwyth, a wyres i Mrs Margaret Roberts, 31 Rhyd fadog, gynt o Dalywaun, Deiniolen. Bu Gwyneth yn llwyddiannus mewn arholiad a chael ei derbyn i astudio Daearyddiaeth yng Ngholeg Newnham, Caergrawnt. Dymunir iddi bob llwyddiant eto yn ei chwrs.

### Mr. W.H.CANAWAY

Croeso'n ôl o New York i Mr. W. H. Canaway, Craig Ddeiniol, Deiniolen. Bu yno o Fawrth 17 hyd Fawrth 21 yn hyrwyddo gwerthiant ei lyfr diweddaraf, sef "The Willow Pattern War". Cafodd y llyfr hwn dderbyniad da yn yr U.D.America, a bydd yn cael ei gyhoeddi ym Mhrydain ym mis Hydref. Mae Bill Canaway yn awdur nifer mawr o lyfrau, yn eu plith, "Sammy go South" a "Glory of the Seas". Hefyd mae'n gwneud sgriptiau ar gyfer ffilmiau. Un ohonynt oedd "The Ipcress File" gyda Michael Caine yn actio ynddo.


**E.W.&M.WILLIAMS**



**Y BECWS**
**DEINIOLEN**

FFÔN : LLANBERIS 232

**BARA FFRES — TEISENNAU BLASUS !**

*(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)*

***

**DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN, PENISARWAUN, LLANRUG a BETHEL**

# BETHEL

## YR URDD

Gwnaed elw o £62 tuag at yr Urdd yn y Ffair a drefnwyd yn y Neuadd nos Wener diwethaf.

## SEFYDLIAD Y MERCHED

Y wraig wadd yng nghyfarfod y Sefydliad nos Iau, Mawrth 18 oedd y Dr. Eirwen Gwynn. Cafwyd sgwrs ddiddorol ac addysgiadol iawn ganddi.

## YSGOL NOS

Mae rhai o chwiorydd yr ardal yn awyddus i ddechrau cwrs o chwe darlith ar bwysigrwydd maeth, neu unrhyw bwnc arall, dan ofal Dr. Eirwen Gwynn a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr. Os hoffech ymuno cewch fanylion gan Mrs. Ellen Jones, Awel y Grug, Cremlyn. Ffôn : Y Felinheli 427.

## MERCHED Y WAWR

Bydd y cyfarfod nesaf yn yr ysgol nos Fercher, Ebrill 14 dan ofal Mrs. Mary V. Jones, Y Waunfawr.

Llwyddiant mawr fu cinio blynyddol y gangen ym Mhlas Tan Dinas nos Fercher, Mawrth 10. Ar ôl y cinio cafwyd adloniant gan Bill ac Ann Evans, Gorffwysfa.

## CYDYMDEIMLAD

Yn sydyn ddydd Llun, Mawrth 1, bu farw Mrs. Gwladys Griffith, Bryn Alun. Mae'n cydymdeimlad llwyraf â Mr. a Mrs. Selwyn Griffith ac Euron, Crud yr Awen, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

## LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Mr. T.H.Jones, 2 Cremlyn, ar gyhoeddi ei ail gyfrol o gerddi a storiau.

Llongyfarchiadau hefyd i Mr. Dafydd Williams, Hafod, 6 Y Rhos, ar gael y wobr gyntaf mewn cystadleuaeth englyn yn 'Y Cymro'. Rhoddodd y beirniad, Alan Llwyd, ganmoliaeth uchel iawn i'w englyn ar y Mis Bach.

**Mis hir a fai'n gymwys hwyrach - i'w alw,**
**A welwyd un meithach?**
**Araf ei ddyddiau afiach,**
**Oes o boen ydyw'r Mis Bach.**

Llongyfarchiadau hefyd i Mr. Tommy Williams, Gwelfor, Saron, am ennill tocyn llyfr mewn cystadleuaeth ar y rhaglen 'Dros Ginio' ar y radio. Ei gamp oedd adnabod darn o "Beddau'r Proffwydi" gan W.J.Gruffydd.

Estynnwn longyfarchion hefyd i Janice Mummery, 3 Penrhos, a Delyth Parry, Hafod Elen, ar gyrraedd ei 18fed penblwydd yn ystod y mis.

## CYMDEITHAS LENYDDOL

Pwyllgor y Gymdeithas ar gyfer y tymor nesaf fydd y Parchedigion Eryl Lloyd Davies, Geraint Edwards, W.R.Williams a George Brewer, Mrs. Fanny Owen, Mrs. Elizabeth Evans, Mrs. Betty Owen, Mrs. Nia Jones, Tom Alun Jones, Goronwy Jones, Ieuan Williams, Tom Williams a Tom Hughes

## PERSONOL

Dymunwn wellad buan i Mrs. Elsie Jones, 2 Cremlyn, Mrs. Gwyneth Evans, Tyddyn Berth, Mrs. Cissie Williams, Bro Dawel, Rhoslan, Dylan Owen, 20 Cremlyn, Mrs. Dorothy Roberts, Karina, Mr. W H.Jones, 23 Cremlyn, a Mr. W. Ellis, 15 Cremlyn, a phawb o'r ardal sydd wedi bod yn wael yn ddiweddar.

## CLWB Y RHOS

Roedd noson y mis yng ngofal Mr. J.E.Thomas, Tan y Buarth. Cafwyd trafodaeth frwd ar bapurau bro, ac Eco'r Wyddfa yn arbennig. Ar y cyfan, roedd y clwb yn croesawu'r papurau bro ac yn dymuno'n dda iddynt yn y dyfodol.

Diolchwyd i'r swyddogion oedd yn ymddeol. Y Swyddogion ar gyfer y flwyddyn nesaf yw : Llywydd — Mr. Merfyn Hughes, Waun Deg; Is-lywydd — Mr. Edward Jones, Gwylfa. Trysorydd — Mr. Seiriol Owen, Crud yr Awel. Ysgrifennydd — Mr. J.E. Thomas. Mr. Elfyn Thomas, prifathro Ysgol Brynrefail, fydd y gŵr gwadd yng nghinio blynyddol y Clwb a gynhelir ym Mhlas Tan Dinas nos Sadwrn, Mawrth 27.

## PLAID CYMRU

Cafwyd Noson Lawen ardderchog gan aelodau o Gangen Llanberis yn yr ysgol nos Fercher, Mawrth 17.

Trefnwyd trip i Landudno i'r henoed ddydd Iau, Ebrill 22. Gofynnir i'r rhai sy'n dymuno mynd gyda'r trip i roi eu henwau i Miss Elizabeth Evans, Blaen Parc, Mrs. Jean Jones, Isallt, Mrs. Nerys Williams, 22 Bro Rhos, neu Mrs. Madge Williams, Hafod, Y Rhos, cyn dydd Sadwrn, Ebrill 10fed. Bydd y bws yn cychwyn o Fethel am 1 a bwriedir dod yn ôl erbyn 6.


# Gwesty Dolbadarn

Tŷ Rhydd-Feddiant

## Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog Aneuryn Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol




# Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH

Croeso unwaith eto, a diolch i chi am anfon cerddi i mewn. Nid oes gofod i'w cynnwys i gyd y tro yma, ond fe gânt eu cyhoeddi i gyd yn rhifynnau'r dyfodol.

Ymysg y pymtheg cerdd a dderbyniais i yng nghystadleuaeth cadair Talsarnau ar y testun 'Moliant Bro' 'roedd un gerdd o ardal Bro Cynfi, Llanddeiniolen. Cerdd hynod o ddiddorol hefyd — ys gwn i pwy oedd ei hawdur? Beth am iddo ei hanfon i'r 'Llannerch'. Gellid cyhoeddi rhannau o'r gerdd.

Diolch i Twm Bethel am ei lythyr diddorol a'i gerdd i 'Gewri Llanberis'. 'Tydan ni fel Cymry yn hoff o fynd i'r fynwent, ac i'r nefoedd hefyd.

**CEWRI LLANBERIS**

**Un Sadwrn yn Llanberis**
**Wrth droed yr Wyddfa fawr,**
**Ces ddiwrnod bythgofiadwy**
**A hwyl a miri mawr.**
**Ond er yr holl lawenydd**
**Rhyw gofio'r oeddwn i**
**Am Gewri Mawr Llanberis,**
**Dynion o barch a bri.**

**Wrth weled yr hen lwybrau**
**Lle cerddodd llawer un,**
**Fe glywais sŵn y glocsan**
**A thrawiad ar y cŷn.**
**Do, gwelais yma'r Cewri**
**Yn symud creigiau gynt,**
**Ond heddiw maent yn ymladd**
**Yn galed am eu gwynt.**

**Mae llawer cyfaill heddiw**
**Yn huno'n awr mewn hedd,**
**Y llwch a'u galwodd hwythau**
**I ddyfnder oer y bedd.**
**Os yw eu gwedd yn welw,**
**A'u genau heddiw'n fud,**
**Mae'r creigiau glas yn dangos**
**Holl greithiau'r gwaith o hyd.**

**Os gwrando wnawn yn astud**
**Wrth basio'r Nant rhyw dro,**
**Cawn glywed lleisiau'r Cewri**
**Yn sibrwd yn y gro,**
**A'r chwarel 'rochor arall**
**Yn ddistaw heb ei gêr,**
**Y creigiau serth yn oeri**
**Heb Gewri Mawr Llanbêr.**

*Twm Bethel.*

Distaw? — Na, mae tipyn o sŵn rhwygo creigiau yno heddiw onid oes? Galwch i mewn eto, Twm, a phob llwyddiant i'r llyfr newydd.

* * * *

Mae pob bardd yn hoff o ganu clodydd ei fro ei hun, a dyna geir yn y gerdd hon gan Gwladys Evans. Oes, yn sicr, mae yna brydferthwch yn ardal Deiniolen hefyd — a tydi pobl Deiniolen yn bobl glên, deudwch? Mae rhai ardaloedd sy'n nodedig am eu croeso onid oes. Hoffais fiwsig yr odl fewnol yn y gerdd hon.

**DEINIOLEN**

**Dringais Lôn Fron un dydd o haf**
**Ar fore braf o heulwen**
**I grwydro, heb na braw na brys,**
**Trwy frwyn a llus Moel Rhiwen,**
**Ac aros dro i ddotio sbel**
**At ardal ddel Deiniolen.**

**Sŵn bwrlwm dŵr yr Afon Goch,**
**A mwstwr croch petrisen,**
**Dau 'hedydd bach sy'n codi'n syth, —**
**Defnynnau gwlith ar gorsen,**
**A'r eithin mân yn berthi o dân**
**I'm denu'n lân — Deiniolen!**

**Tŵr yr Hen Eglwys fel bys hir**
**Yn estyn i'r ffurfafen,**
**Mwg y simneiau'n codi o'r pant,**
**Pell eco plant Ffridd Felen,**
**Paham na luniodd Gwyndaf gân**
**Neu Gynan i Ddeiniolen?**

*Gwladys Evans.*

Ydi, mae'n rhy ddiweddar i ofyn i Gynan — gwaetha'r modd. Beth amdani Gwyndaf?

Rwan at y beirdd bach — beirdd y llinell goll — halen y ddaear.

Chwi gofiwch y pennill :—

**Dwedodd Siân yn swil wrth Sioni**
**"Blwyddyn naid yw hon eleni"**
**Meddai Sioni wrthi'n swta**

.................................................

**Rwyt fel babi eisiau mwytha'** meddai "Crindai". **"Daliwn ati i lyffanta"** *(Dibyn).* Mae "Twm Bach" yn wyliadwrus iawn **"Cyn rhoi naid rhaid gwylio gynta".** Fo sy' biau'r llinell hon hefyd: **"Cawn briodi pan ddaw'r nesa'".** A dyma un arall ganddo : **"Sgwn i bery'r sgertiau cwta?"**

Un garw ydi'r "Twm Bach" yma 'nte. Diolch i ddisgyblion dosbarthiadau 2c a 3c Ysgol Brynrefail am iddynt anfon 'llond bag ysgol' o linellau imi. Yr orau o'r bwndel gen i oedd hon gan "Calimero" :**"Gwell gen i dy chwaer, Anita"** Dyma rai o'r goreuon : **Bobol mawr, be neidith nesa?** *(Gwen No.10).* **Blwyddyn hapus i hen lancia** *(Sosialydd)* **Beth am fis o dreial gynta?** *(Nellie)* **Neidio wir 'fo megin fel'ma** *(Secsi)* **Neidia ditha, — o ben Wyddfa** *(Henpecd)* **Fedra 'im neidio 'fo cricmala** *(Slo Jo)*

O'r 238 o linellau a dderbyniwyd, credaf mai 'Gwen No.10' a 'Henpecd' yw'r ddau fwya' swta, a chan fod 'Henpecd' yn fwy o ddweud plaen nag o swta — 'Gwenno No.10' sy'n cael y wobr. Anfoned ei henw priodol. Llongyfarchion iddi. Cofiwch, 'rwy'n hoffi'r 'Secsi' 'ma hefyd. Tipyn o neidiwr yntê.

Fe gawn ni gystadleuaeth llinell goll eto yn y dyfodol, ond erbyn y mis nesaf beth am lunio cerdd ar y testun "FFŴL EBRILL". Anfonwch eich cerddi i 'Llannerch y Llenor', Crud-yr-Awen, Bethel erbyn Ebrill 22ain.

Hwyl fawr i chi,

Selwyn.

**Yn dilyn rhifyn cyntaf Eco'r Wyddfa cafwyd 238 ymgais ar y llinell goll, dwsinau yn sgrifennu i mewn a gwneud y croesair, a gwerthwyd POB PETH a hysbysebwyd yng ngholofn AR WERTH y papur.**

**DA IAWN CHI! PARHEWCH I'W BRYNU A'I FWYNHAU.**

**'DOES DIM CURO AR YR ECO!**

# Maes y Merched

**Croeso ichwi ferched (a dynion!) y cylch i golofn Eco'r Wyddfa sydd yn ymwneud yn bennaf â phynciau perthynol i'r gegin, y cartref neu'r teulu mewn cymdeithas. 'Rydym i gyd â diddordeb mewn materion fel chwyddiant, amddiffyniad y prynwr, sut i brynu offer cegin a sut i fyw yn fras heb wario gormod – os yw hynny'n bosibl y dyddiau yma! Felly, colofn bob dydd fydd hon i helpu, i ddiddori ac i ddatgan barn.**

### Y TRIONGL COCH

A welsoch chi eto y triongl coch sydd wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar? Na, nid trionglau arwyddion ffyrdd, ond y rhai welwch chi ar ffenestri siopau yn cyhoeddi yr atelir prisiau ar nwyddau a werthir o'u mewn. Trefniant gan y llywodraeth yw hwn i geisio helpu'r prynwr. Trwy arddangos arwydd mae'r siopwr yn addo peidio codi'r pris fwy na 5c yn y bunt am chwe mis – o Chwefror 16 hyd Awst 16. Rhyw drefniant ewyllys da yw hwn a dweud y gwir, ond os am fwy o fanylion am y nwyddau o fewn y drefn, anfonwch i'r cyfeiriad isod.

**Price Check**
**Room LG01**
**1 Victoria Street**
**London SW1H OET**

### RISÊT – CACEN SIMNEL

Dyma risêt i chi i'w drio dros y gwyliau. Risêt yw ar gyfer cacen Simnel ac mae'n iawn i fwyta hon rhyw dro rhwng Sul y Mamau (Mawrth 28) a Sul y Pasg. Felly ewch ati!

**CYNHWYSION : 6 owns o fenyn, 6 owns o siwgr mân, 3 wy wedi eu curo, 8 owns o flawd plaen, Pinsiad o halen, 1 llwy de lefel o sinamon, 1 llwy de lefel o nytmeg, 12 owns o gyrens, 4 owns o swltanas, 3 owns o bil candi. 1¼ pwys o farsipan wedi ei rannu yn ddau. Gwres popty : 325° F neu Regulo 3.**

**Dull** :(1) Leiniwch dun cacen 7" â phapur gwrthsaim. Defnyddiwch ddwy neu dair haen (2) Curwch y menyn a'r siwgr nes ei fod yn wyn ac ysgafn (3) Curwch yr wyau i'r menyn a'r siwgr. (4) Rhidyllwch y blawd sinamon, nytmeg a halen a'i blygu'n araf i'r cymysgedd gyda llwy fetel. (5) Cymysgwch y ffrwythau i mewn a sicrhau eich bod wedi defnyddio bob un o'r cynhwysion (6) Rhowch ½ y cymysgedd yn wastad yn y tun 7". Wedyn rhowch 1 cylch o'r marsipan. yna gweddill y cymysgedd cacen. Gwnewch bant bach yn y canol i gadw'r gacen yn wastad yn ystod crasu.

**Crasu** : 1 awr yng nghanol y popty. Gostyngwch y gwres i 300°F Reg 1 - 2 am 3 awr arall (4 awr i gyd) nes fod y gacen yn felyn/frown ac wedi gorffen canu . h y. Rhowch eich clust wrth y gacen ac os yw'n barod dylai fod yn hollol ddistaw (hen arferiad Cymreig medden nhw!). Gadewch y gacen yn y tun i oeri.

**Addurno** : Defnyddiwch yr ½ arall o farsipan i wneud 11 pelen ac un cylch 7" ar draws. Brwsiwch wyneb y gacen â jam apricot, gosodwch y cylch arni a'r peli marsipan o gwmpas yr ochr. Brwsiwch ychydig o wy ar yr wyneb a rhowch y gacen o dan y gril i frownio. (Cadwch eich llygad arni). Gyda rhuban melyn o'i chylch ac ychydig o gywion a wyau siwgr bydd yn werth ei gweld. Pob hwyl!

# CWM-Y-GLO

### MERCHED Y WAWR

Cyfarfu y gangen leol yn yr Ysgol Gynradd dan lywyddiaeth Mrs. Hannah Jones, Tawel Lan. Dathlwyd Gwyl Ddewi gyda Noson Lawen a swper o fwydydd traddodiadol Cymreig a ddarparwyd gan aelodau'r gangen.

Mrs. Vaughan Jones a Mrs. Morgan Jones o'r Waunfawr oedd y gwahoddedigion, a buont mor garedig a beirniadu y gwahanol gystadleuthau.

Dyma restr o'r enillwyr.

Gwneud brawddeg allan o'r gair 'Datganoli' : Mrs. Verna Jones, Meillionen, Mrs. Eluned Hughes, Hyfrydle a Miss Olwen P. Jones, Gwylfa. Parodi : Mrs. Katie Watkins, Dolwen, Mrs. Eluned Hughes a Miss Olwen P. Jones. Araith fyrfyfyr : Mrs. Maria Pritchard, Llanberis. Gwneud het wreiddiol: Miss Elizabeth Hughes, Tanygraig. Diolchwyd i'r gwestwragedd gan Mrs. Hannah Jones.

Oherwydd gwyliau'r Pasg fe gyferfydd y gangen ar yr 28ain o Ebrill y tro nesaf.

### Y CARNIFAL

Mae'n debyg y bydd y Carnifal yn cael ei gynnal ar y dydd Sadwrn cyntaf ym mis Gorffennaf. Yn ystod yr wythnos flaenorol gobeithir cynnal gêm bêl-droed i ferched ac ychydig o weithgareddau eraill.

### CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn â theulu Mrs. M. Owen, Bryn Crwn gynt, a fu farw yng nghartref ei merch yn Llanrug.


Cofiwch alw yn

**SIOP POB DIM**

G.E. & M. JONES
(GER YSGOL BRYNREFAIL)
AR AGOR
8.30 a.m. – 8.00 p.m.
LLUN – GWENER
10.00 a.m. – 8.00 p.m.
DYDD SADWRN
11.30 a.m. – 1.00 p.m.
DYDD SUL
*Oriau cyfleus i bawb!*


# TAN-Y-COED

### Mrs. Jane Roberts, Minafon, Tan-y-Coed

Chwefror 23, 1976, bu farw Mrs Jane Roberts yn 86 mlwydd oed. Priod y diweddar Mr Lewis J. Roberts oedd Mrs. Roberts. Cofia trigolion hynaf yr ardal am gyfraniad cyfoethog y diweddar Lewis J. Roberts, ac yn ddiweddarach, ei fab, y diweddar Mr Hugh Roberts, i fywyd yr ardal. Cofiant am eu caredigrwydd a'u llu cymwynasau i gydnabod a chyfeillion.

Dyma golled arall i'r ardal – colli Mrs. Jane Roberts a gofir yn hir am ei gwên siriol oedd yn ymestyn ei llygaid, am ei bonedd-igeiddrwydd a'i charedigrwydd; mam rinweddol, nid yn unig yn ei chartref, ond yn ei milltir sgwâr fel y galwai y diweddar annwyl D.J.Williams ei hen ardal.

Daeth Mrs. Roberts, Miss Jane Jones fel yr oedd y pryd hwnnw, a'i rhieni, tair chwaer a brodyr i fyw i'r Bryngwyn i gadw busnes siop a becws dros hanner can mlynedd yn ôl. Roedd tair o'r merched wedi bod mewn busnes yn Lloegr, a'r rhieni, Mr. a Mrs. Ellis Jones, yn dod o Ddeiniolen. Yn Neiniolen y ganwyd Mrs. Roberts.

Mae gennyf gof byw plentyn ysgol ar fy ffordd i Ysgol Brynrefail o weld y teulu yma yn rhes ar draws y ffordd yn mynd am y Bryngwyn. Minnau, heb wybod dim amdanynt, yn teimlo gwefr am fod teulu mawr ifanc fel hyn yn dod i fyw i'n hardal ni. Ni'm siomwyd chwaith. Profodd tair geneth ysgol gyfeillgarwch y chwiorydd hyn, a daeth y becws yn fan cyfarfod a thrin a thrafod inni. Cyfoethogwyd ni drwy eu profiad helaeth hwy.

Gresyn na welem ragor o deuluoedd Cymreig fel y rhain yn dod i'n mysg eto i gyfoethogi bywyd Cymreig ein hardal.

Yn y blynyddoedd cynnar rheini daeth rhinweddau Mrs. Roberts i'r amlwg, ei chymwynasau a'i charedigrwydd. Yr oedd yn fedrus fel gweinyddes, a gwniodd lawer, a hynny am bris rhesymol, llai na'r teilyngdod. Bu cwpwrdd dillad ambell ferch ieuanc dipyn llawnach oherwydd ei gwasanaeth hi a'i hamynedd i droi hen ddilledyn yn ddilledyn newydd.

Ar ôl cyfnod hapus yn y Bryngwyn fel gwniadwraig a siopwraig, priododd Miss Jane Jones â Mr. Lewis J. Roberts. Ei chartref bellach oedd Minafon lle bu yn fam annwyl i blant ei gŵr, ac wedyn yn fam yr un mor annwyl i'w phlant ei hun. Enid a Lewis J. Roberts oedd fawr eu gofal amdani hyd y diwedd. Y mae cydymdeimlad yr ardal â hwy yn eu galar.

Er ei chyfyngu i'w chartref ers blynyddoedd oherwydd llesgedd, eto parhaodd Mrs. Roberts yn frenhines ei 'milltir sgwâr'. Cadwodd ei siop ar agor hyd 1972. Llawer cymwynas ddirgel aeth o'r siop, aml gyngor buddiol. Parod oedd i gyd-lawenhau a chydddristau â'i phobl dros y cownter. Cofia llawer plentyn am ei childwrn. Mae'r 'filltir sgwâr' yn dlotach o gau'r siop – y gyfathrach gyfoethog wedi peidio. Yng ngholli Mrs. Roberts collasom rinweddau ei chyfnod, agosatrwydd, caredigrwydd, Cymreictod, gwerthfawrogiad o'r maen y'i moldiwyd ohono.

Diolch am gael cyd-gerddded rhan o'r ffordd gyda Mrs. Jane Roberts. Diolch am gael ei 'nabod.

### PERSONOL


Llongyfarchiadau i Mrs. M.E.Shilton, Tan-y-Coed, ar ddathlu ei phenblwydd yn 90 mlwydd oed ar Fawrth 11, 1976. Y mae Mrs. Shilton yn arlunydd talentog, wrth ei bodd yn tynnu lluniau'r golygfeydd hardd a wêl o'i bwthyn. Yr un yw'r mwynhad er y cyfyngu ar ei gorwelion, – ei diddordeb yn y pethau bychain, y blodau, anifeiliaid, machlud haul a chadernid y mynyddoedd, heb sôn am ei hoffter o ysgrifennu a darllen. Y mae hyn oll yn ei chadw'n ieuanc a llon er meithed ei blynyddoedd. Bendithier hi eto â'r un llawenydd i'r dyfodol.

Dymuniadau da'r ardal i Mrs. Catherine Evans, Preswylfa, Tai Trefor, sydd yn Ysbyty Dewi Sant Bangor. Da deall ei bod yn gwella.

Ar Chwefror 28, 1976, priododd Miss Christine Dawn Humphreys, Clawdd Llwyd, a Mr. Howard Wyn Jones, Bryn Haul, Groeslon. Bwriada'r pâr ifanc ymgartrefu yn y Groeslon. Pob dymuniad da iddynt.


AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO ...............

*Eric Morris*



**Arvonia Coaches**
**LLANRUG**
FFÔN WAUNFAWR 254

# GŴYL CADAIR DINORWIG



Yr oeddych yn holi yn y rhifyn cyntaf o Eco'r Wyddfa am ragor o fanylion ynglŷn â'r llun o'r Eisteddfod a ymddangosodd.

Eisteddfod Llys Dinorwig Brynrefail ac nid Eisteddfod Dinorwig oedd hon, a chynhaliwyd yr ŵyl ar Awst 22, 1908, ac yna yn 1909, ac nid yn 1906 a 1907 fel y nodir. Gan fy mod yn byw yn Llys yr oeddwn yno yn yr Eisteddfod er mai ifanc iawn oeddwn.

Alafon, gweinidog capel Ysgoldy gerllaw, oedd prif ysgogydd yr eisteddfod – yn wir, "Gŵyl Cadair Dinorwig" y'i gelwid hi ac nid Eisteddfod – hen enw ar eisteddfod a gynhelid gan Ddafydd Ddu Eryri ac eraill ar fryn ger Glasgoed, Penisarwaun.

Y gantores a saif wrth ochr y delyn oedd Miss Jane Foulkes, Brynrefail, (Mrs. Foulkes Roberts, Bronallt, Brynrefail ar ôl priodi) – cantores o fri yn y fro bryd hynny. Mae ei merch, Mrs. Olwen Hughes, yn byw heddiw yng Nghaernarfon. Rhyngddi a'r delyn yn eistedd mae Miss Alma Foulkes, merch Mr. E. Foulkes, Lerpwl, ac un o Lerpwl oedd y delynores hefyd. Dros het y delynores gwelir Mr. Joseph Thomas, ysgolfeistr Cwm-y-glo, cerddor adnabyddus yn yr ardal bryd hynny. Yna gwelir Berw, person y Waunfawr, â'i law chwith ar gefn y gadair. Glynhefin yw'r llall sydd â'i law dde ar gefn y gadair a thlws aur ar ei fynwes. Ar flaen y llun wrth ochr Glynhefin ac yn gafael yn ochr y gadair mae Alafon, a thros ei ben ef gwelir wyneb Edward Foulkes, Llanberis. Wrth ochr Alafon mae gwraig Berw, ac wrth ei hochr Glan Alaw, gweinidog Brynrefail. Tu ôl iddo, a chap ar ei ben mae R. E. Jones (Cyngar) Llanberis, tad y Dr. Ifan Huw Jones gynt. Tu ôl i Glan Alaw (efo'r het fawr) mae Caerwyn yr arweinydd eisteddfodol adnabyddus. Gwelir Deiniolfryn a'r Parch James Salt, person Llandinorwig, hefyd yn y llun, ar y dde.

Dywedir fod y gadair wedi bod yn eiddo Marged Fwyn Uch Ifan, a bod y flwyddyn 1719 wedi ei dorri arni. Rhoi benthyg y gadair yn unig a wnaed – ni wn gan bwy – i weinyddu seremoni'r cadeirio. Ble mae'r gadair erbyn hyn tybed? Yn ôl fy nghofnodion, Glynhefin, sef Mr. O. Jones, Waunfawr, a enillodd ar awdl foliant i Ddafydd Ddu Eryri. Roedd hyn fel y dywedais ar Awst 22, 1908. Llun yr Eisteddfod honno oedd yn Eco'r Wyddfa. Mae'n bosibl mai'r flwyddyn ddilynol, 1909, yr enillodd y gweinidog o America fel y nodwyd gennych. Mae Glynhefin yn gwisgo'r tlws aur yn y llun fel gwobr am ei lwyddiant.

Er mai cof bychan sydd gennyf, fe glywais fy nheulu yn sôn droeon am yr Ŵyl, a chofiaf fel y defnyddid ein tŷ ni a thŷ fferm y Llys i wneud bwyd ar gyfer y gynulleidfa a'r ymgeiswyr. Cynhelid yr eisteddfod bnawn a nos ar gae ger hen adfeilion Llys Dinorwig, gyda'r llwyfan wedi'i wneud o goed y caeau cyfagos.

*Mrs. N. F. Williams, Glanffrwd, Brynrefail.*

# Nest Cwm Eilir

*'Goldthore',*
*24 Sollershott East,*
*Letchworth,*
*Herts.*

*Annwyl Syr,*

*Ganwyd fi ym Mhenisarwaun, ac yno y mae fy mam a fy nhad a'r teulu yn dal i fyw.*

*'Roedd y llun o fuddugwyr Eisteddfod Gadeiriol Dinorwig o ddiddordeb mawr i mi. Brawd i fy nain (y ddiweddar Anne Roberts, Ty'n Pwll) oedd y Parch. John Michael Pritchard, y buddugol ar y delyneg. 'Rwy'n deall ei fod wedi ysgrifennu pryddest ar y testun "Nest Cwm Eilir" yn y flwyddyn 1907 neu 1908. Mi ges y pleser o'i gyfarfod pan ddaeth drosodd i Gymru tua 1966 pan oedd yn 84 mlwydd oed. Bu farw tua chwe mlynedd yn ôl.*

*Buaswn yn ddiolchgar iawn o gael unrhyw hanes am y bryddest neu gopi o'r llyfr os yw ym meddiant rhywun.*

*Dyma ddau bennill mae mam yn eu cofio o'r bryddest:*


*NEST CWM EILIR*

*O amgylch amaethdy Cwm Eilir*
*'Roedd anian a phopeth yn hardd;*
*Y llyn a'r mynyddau breuddwydiol*
*Yn deffro darfelydd y bardd.*

*'Roedd Nest yn feinir ieuanc*
*Mor hardd a blodau'r haf,*
*A rhywbeth yn ei llygaid glas*
*Yn gwneud pob bron yn glaf.*


*Yn gywir,*
*Nesta Beechey (Mrs.)*

*Diolch i Mrs Williams am ei gwybodaeth werthfawr. Dyma lun arall o 'Ŵyl Cadair Dinorwig.' Yr unawdydd ifanc yn y llun oedd Mr. Robert Williams (Bob Erwbian, Bethel) neu yn ôl ei enw cerddorol Trebor Deiniol. Collodd ei fywyd yng Ngwlad Canan yn ystod y rhyfel gyntaf. Brawd hynaf oedd i Mr. Cledwyn Williams, prifathro Ysgol Gynradd Llanrug a Mr. Owen Williams, cyn-brifathro Ysgol Gynradd Dinorwig.*




"Nid wy'n gofyn bywyd moethus"


MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans


# Atgof o'r Archifau

Atgofion o lein bach Padarn, tua 1896, pan oedd *Velinheli'n* newydd sbon. Fe redodd yr injian hon rhwng y Gilfach-ddu a Phenscoins yn gyson o 1895, pan y'i prynwyd yn newydd o gwmni Hunslet yn Leeds, hyd Tachwedd 1953, pan dynnwyd yr injian yn ddarnau gyda'r bwriad o'i hadnewyddu; ond yr oedd heb gael ei thrwsio pan gaewyd y lein yn 1961.

Yn y cefndir gwelir yr injian fach *Vaenol*, a ddefnyddiwyd i dynnu wagenni yn y chwarel. Fe'i hadeiladwyd yn 1895, a chafodd enw newydd – *Jerry M* – yn y man. Fe'i symudwyd o'r chwarel tua 1967.

Tybed a oes rhywun sy'n gwybod pwy yw'r bobl o gwmpas yr injian? Byddai'r Archifdy yng Nghaernarfon yn hoffi cael y manylion.


GWILYM JONES
Monumental Works
LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWYR LLEOL

# AR WERTH

**Bwrdd Billiards** – ar werth yng Nghlwb yr Efail, Tŷ Glas, Brynrefail. Ymofynner â Mrs. Eifiona Jones, Bron Eryri neu Mr. G. Pritchard, Glyn Afon, Brynrefail.
**Côt Werdd** (Polyester Jersey) Seis 16– newydd sbon £10.
**Côt Law** (Terylene) Seis 16 – bron yn newydd £4. Mrs. A. Pritchard, Madryn, Stryd Newton, Llanberis.
**Mothercare Pram/Pushchair (£10), Cot a matres (£5), Mothercare Carrycot a matres (£4.50), Crud Wicker a matres (£8), Mothercare Carrycot a bathstand (£1.50), Bottlewarmer (.50c), Sêt pram (£1), Blancedi (£3), Pram Covers (o 25c), Safety harness (50c), Toiletry basket (50c), Sterilizing Unit (25c), Mrs. Pat Jones, 1 Garth Hill Cottages, Upper Garth Road, Bangor.**
**Carmen heated rollers** – set o 14, bron yn newydd (£5). Llanberis 220.
**Selmar Battery charger** – heb ei ddefnyddio. (£4) Llanberis 877.
**Triumph Herald** 12/50. 1966. Ar werth yn Llanrug. Ffôn : Caernarfon 3485.
**Cadair wthio** (Comfyfold) yn plygu'n fach, gyda gorchuddion glaw i'r pen a'r traed. (£5) Bethlyn, Tan y ffordd, Bethel. Ffôn : Felinheli 405.


# YN EISIAU

**Beic Dyn** mewn cyflwr da. H. Bara, Llanberis.
**Beic Rasio** mewn cyflwr da. 10 neu 5 ger. Llanberis 877.
**Beic dynes** mewn cyflwr da. Jones, Ael y Bryn, Stryd Newton, Llanberis.
**Wardrob** mewn cyflwr da i gwmni drama Llanberis.
**Dressmaker's dummy** mewn cyflwr da Miss Jane Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis.
**Garden Cultivator** mewn cyflwr da. Pris rhesymol. Caernarfon 4365.
**Beic** i ferch 10 oed. Evans, Blaen Parc, Bethel. Ffôn : Felinheli 494.

## ATEBION CROESAIR RHIF 1

**Ar draws** : (1) Caethiwo. (5) Gwallt. (8) Cychod hwylio. (9) Golud. (10) Amnaid. (12) Addolwr. (14) Achubwr. (17) Mantol. (18) Eiddew. (20) Llaeth gwartheg. (22) Llawen. (23) Niferus. **I lawr** : (1) Creigiau. (2) Encilio. (3) Iechyd. (4) Oediad. (5) Grwgnach. (6) Ail. (7) Troi. (11) Brawychus. (13) Wy tegan. (15) Buddugwr. (16) Olrhain. (18) Eithaf. (19) Ellyll. (20) Elw.
**Enillydd Croesair Rhif 1** :Robin Llywelyn, Bryn Beuno, Ceunant.

## CROESAIR RHIF 2



**AR DRAWS**
1. Ceir hwn mewn llyfrgell (10)
6. Y gronyn lleiaf (4)
9. "....gwan, paham yr ofni (H.E.L.) (5)
10. Siôn!! (6.3)
11. Peiriant dangos lluniau (8)
12. Gloywi (5)
14. Golau cefn (4.2)
16. Cân o fawl (4)
19. Blodyn (4)
20. Yn ymyl (3.3.)
22. Perthynas (5)
23. Yn ymadael (8)
25. Amserol (9)
26. Darn o dir ger y tŷ (5)
27. Torri (4)
28. Unig gan Dei. anag. (10)

**I LAWR**
2. Malu awyr!! (6.3)
3. Bro (5)
4. Aderyn (5.3)
5. Coeden (4.2.)
7. Diwedd dydd (6.4.)
8. Pwdu (5.3.)
13. Digwyddiad anffodus (3.7.)
15. Danteithion (8)
17. Cefnogwyd (9)
18. Dwsin Pobydd (3.2.3)
21. Crynhoi (6)
24. Afiach (5)

**Cyfrifir y llythrennau canlynol fel un llythyren : ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.**
**Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir ar ôl i'r holl gynigion ddod i law. Anfoner y cynigion i Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis. Dyddiad Cau : Mercher, 21 Ebrill.**


# Rhywbeth i'w werthu'n breifat?

## HYSBYSEBWCH YN ECO'R WYDDFA

**DYDIO'N COSTIO DIM!**

Anfonwch at
Siân Thomas,
Foelas,
Stryd Newton,
Llanberis.
(Ffôn : Llanberis 220)


# Dyddiadur y Mis

**Ebrill 1 Nos Iau** Clwb gwyddbwyll Llanberis yn cyfarfod yn yr ysgol am 7 o'r gloch.
**Ebrill 2, nos Wener** Bingo dan nawdd Pwyllgor Cae Chwarae Coed y Ddôl yn y Ganolfan, Llanberis am 7.30.
**Cynhelir Noson Goffi yn Ystafell y Band, Deiniolen am 7 o'r gloch.**
**Ebrill 3, Sadwrn** Eisteddfod Sir yr Urdd yn Neuadd Pritchard Jones, Y Brifysgol, Bangor.
Enciliad i blant Catholigion 12 – 14 oed yng nghwfaint Sant Ioseff, Twtil, Caernarfon. o 9 - 5.30.
**Ebrill 4, bore Sul** Capeli M.C. Llanberis. Gwasanaeth yng ngofal y dosbarth derbyn yng Nghapel Coch am 10 o'r gloch.
**Ebrill 5, Llun** Clwb Methedig Eryri yn cyfarfod yng Nghanolfan Llanberis am 2 o'r gloch.
Gyrfa Chwist dan nawdd St. John's, Llanberis yn y Ganolfan am 7.30.
Cynhelir cyfarfod blynyddol yn ystafell Band, Llanrug am 7.30. Croeso i bawb â diddordeb yn y Seindorf.
**Ebrill 6, Mawrth** Cyfarfod Undeb y Mamau, Llanberis yng nghwmni Mrs. Prasadan.
Cynhelir arddangosfa o waith y dosbarth arlunio yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis, rhwng 7 a 8.30.
**Ebrill 7, Mercher** Cyngerdd gan blant Ysgol Gynradd Llanrug yn Ysgol Brynrefail.
Bingo dan nawdd Plaid Lafur Llanberis yn y Ganolfan am 7.30.
**Ebrill 8, nos Iau** Cyfarfod cyhoeddus yng nghwmni Mr. Dafydd Wigley, A.S. a chynghorwyr lleol yng Nghanolfan Llanberis am 7.30.
**Ebrill 9, Gwener** Cystadleuaeth drama yr Urdd yn Neuadd Ysgol Brynrefail am 7.30. Tair Drama fer (dwy gan blant Ysgol Brynrefail) ac un gan Adran Pwllheli.
Cyfarfod olaf Adran Urdd (11 - 14 oed) Llanberis yn festri Preswylfa am 6 o'r gloch.
Aelwyd Llanberis. Cyfarfod olaf yng Ngwesty Erw Fair am 7.30.
**Ebrill 12, Llun** Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yng Nghanolfan Llanberis am 7.30.
**Ebrill 13, Mawrth** Cyfarfod misol o Undeb y Mamau, Cwm-y-Glo yn yr ysgol.




Fan hyn ydi Llanfairpwllgwyn..... ....? Ia. Os bydd gen i ddigon o baent.

Merched y Wawr, Llanrug. Cynhelir cyfarfod yn y Sefydliad Coffa yng nghwmni Dr. Eirwen Gwynn.
**Ebrill 14, Mercher** Clwb y Mamau, Llanberis. Noson yng nghwmni Mrs. E. Carters yn y Ganolfan am 7.30.
Cyfarfod o gangen Merched y Wawr, Bethel, yn yr ysgol.
**Ebrill 15, Iau** Cyfarfod o Sefydliad y Merched, Bethel, yn yr ysgol.
**Ebrill 16, Gwener y Groglith** Eglwys Brynrefail M.C. Cyfarfod Pregethu am 10, 2 a 6. Pregethir gan y Parch. R. Gwilym Hughes, Pwllheli.
Cynhelir cyfarfod undebol yng Nghapel Coch, Llanberis am 10 o'r gloch. Gweinyddir y cymun gan y gweinidog, y Parch. John Owen.
**Ebrill 17, Sadwrn** Dadorchuddio cofeb T.Rowland Hughes tu allan i 20, Stryd Goodman, Llanberis am 2 o'r gloch.
**Ebrill 18, Sul y Pasg** Eglwys Cefnywaun, Deiniolen. Cynhelir Gŵyl Bregethu FLynyddol. Pregethir gan y Parch. Huw Jones, Y Bala. Croeso i bawb.
**Ebrill 21, Mercher** Cangen Cwm-y-glo o Ferched y Wawr yn cyfarfod yn yr ysgol.
Bongo dan nawdd Plaid Lafur Llanberis yn y Ganolfan am 7.30.
**Ebrill 22, Llun** Trip yr henoed, Bethel, i Landudno dan nawdd cangen Plaid Cymru.
**Ebrill 26, Llun** Gyrfa Chwist yn y Ganolfan, Llanberis am 7.30.
**Ebrill 27, Mawrth** Cyfarfod o Glwb yr Heulwen, Penisarwaun, yng nghwmni y Parch. Stanley H. Williams, Glasgoed yn Neuadd yr Eglwys.
**Ebrill 28, Mercher** Clwb y Mamau, Llanberis. Noson Lawen yng nghwmni Parti Cynfi, Deiniolen. yn y Ganolfan am 7.30.
**Ebrill 29, Iau** Sefydliad y Merched, Llanberis. Noson yng nghwmni Mr. Ifor Bowen Griffith yn y Ganolfan am 7 o'r gloch.
Clwb Henoed, Llanrug yn cynnal Tombola, noson goffi ac arwerthiant am 7 o'r gloch. Dewch yn llu i helpu'r clwb.
**Ebrill 30, Gwener** Gyrfa Chwist dan nawdd Sefydliad y Merched, Penisarwaun, yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.

**DYDDIADAU I'W COFIO**
**Mai 1** Cinio'r Blaid Lafur yng ngwesty Victoria, Llanberis.
**Mai 20** Noson o adloniant dan nawdd Cangen Plaid Cymru Llanberis yn y Ganolfan.
**Gorffennaf 4 - 10** Wythnos Garnifal Seindorf Deiniolen.
**Gorffennaf 9 - 17** Wythnos Garnifal Llanberis.
**Anfoner manylion i Miss Jane Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis. Ffôn: Llanberis 220.**

# LLANBERIS

## CLWB Y MAMAU A GWRAGEDD IFANC

Bu cyfarfod o'r Clwb yn y ganolfan ar Fawrth 3 pryd y dathlwyd Gŵyl Ddewi gyda 'buffet' wedi ei baratoi gan aelodau o'r pwyllgor. Diddanwyd yr aelodau gan rai o bwyllgor carnifal 1975, a bu'r noson yn un ddiddorol a hwylus. Diolchwyd gan lywydd y clwb, sef Mrs. Eirlys Ellis.

Yn y ganolfan nos Fawrth, Mawrth 17 cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Parti'r Bryniau, Rhosgadfan. Paratowyd y lluniaeth i'r gwahoddedigion gan Mrs. Dilys Phillips, Mrs. Eirlys Ellis, Mrs. Enid Jones, Mrs. Megan Williams, Mrs. Gwyneth Kelly a Mrs. Olga Williams. Talwyd y diolchiadau gan Mrs. Norah Lloyd ac enillwyd y rafflau gan Mrs. Enid Hughes a Mrs. Nellie Davies. Rhoddwyd y gwobrau gan Mrs. Dilys Phillips a Mrs. Eirlys Ellis.


## CADLANCIAU St. IOAN

Bu'r cadlanciau isod yn llwyddiannus yn eu arholiad blynyddol mewn cymorth cyntaf am 1975 :
Geraint Jones, Andre Lambrecht, Robin Owen, Robert James Jones, Paul A. Jones, Arwel Wyn Roberts, Billy Jones, Robert A. Hughes, Alwyn Ll. Hughes, Peter Glyn Roberts, Maldwyn Lewis. Y flwyddyn gyntaf: Arfon Hughes, Dylan C. Parry. Cyflwynwyd y tystysgrifau gan Miss C. A. Gillespie.

## ARDDANGOSFA ARLUNIO

Cynhelir yr arddangosfa flynyddol o luniau aelodau dosbarth arlunio Llanberis yn Ysgol Dolbadarn nos Fawrth 6 o Ebrill rhwng 7 a 8.30.

Mae'r dosbarth yn erfyn am eich cefnogaeth er mwyn codi arian i brynu offer i gynnal y lluniau. Pris mynediad fydd 12c gan gynnwys coffi a bisgedi. Dowch yn llu!



## GŴR A GWRAIG YN ENNILL GRADD

Dyna hanes Mr. a Mrs. Tegid Griffiths, Henffridd, yn ddiweddar. Derbyniasant eu graddau drwy'r Brifysgol Agored wedi astudio am bum mlynedd yn eu horiau hamdden. Prifathro yw ef ac athrawes yw hithau. Y mae Mrs. Griffiths yn ferch i Mrs. Roberts, Maes Padarn (Rhesycae gynt) a'r diweddar Mr. Roberts.

## EISTEDDFOD Gofalaeth Eglwysi M.C. Llanberis a Nant Peris

Cynhaliwyd yr Eisteddfod uchod yng Nghapel Gorffwysfa nos Iau a nos Wener, 18ed a'r 19eg o Fawrth. Y llywyddion oedd Mrs. Mair Searall Jones, Bodwrog, Ynys Mon (nos Iau), a Mr. Arwel Jones, Llanrug (nos Wener). Y beirniaid oedd Mr. Gwilym Hughes, Bangor (Adrodd nos Iau), Mrs. Madge Hughes, Bangor (Adrodd nos Wener). Mr. T. Gwynn Jones, Llanfairfechan (Cerdd nos Iau), Mr. Alwyn Samuel, Bangor (Cerdd nos Wener). Mrs. Barbara Mansel Owen (Arlunio), Miss Jane Morris (Gwnio), Mrs. Hannah Jones a Mrs. Katie Owen (Maes Llafur), Parch. John Owen (Traethodau). Cyfeiliwyd gan Mrs. Ann Pritchard. Yr arweinwyr oedd Mr. John Davies a Mr. Alwyn Owen (nos Iau), Mr. Owen Humphreys a Mr. Richard Jones (nos Wener). Diolchwyd gan Mr. H. R. Jones. Dymuna'r pwyllgor ddiolch o galon i'r holl aelodau am eu haelioni tuag at gronfa'r eisteddfod, ac i'r llywyddion am eu rhoddion anrhydeddus.

## DIWEDD TYMOR

Cynhaliwyd y cyfarfod olaf o Gymdeithas Lenyddol Capel Coch, Gorffwysfa a Phreswylfa ar Fawrth 8 gyda chinio yn Erw Fair a chyfarfod hwyliog yn dilyn yng ngofal y Parch. J. Owen. Roedd y rhaglen wedi'i threfnu gan Mrs. R.Jones, Glasfryn, a Mr. H.R. Jones, Bod Fair. Cymerwyd rhan gan Mrs Martin Owen, Mrs. R. Jones a Mr. J. Davies. Cyfeiliwyd gan Mrs. R.Jones. Dewiswyd pwyllgor am 1976/77, sef Mrs.J. M.Jones, Mrs. Rhys Owen, Mrs. R.Ll. Jones, Mrs. Martin Owen, Mrs. T.Maxwell, Mrs. D.Baylis, Mrs. E.M.Williams, Mrs. J.M.Jones Mrs. Dwynwen Roberts, Mrs. Jones, Eithinog, Mr. J.Davies, Mr. Gwynfor Williams, Mr. H.R.Jones, Mr. J.S.Thomas, Mr. W. Jones, Mr. Ifor Parry a Mr. Cledwyn Parry. Y pwyllgor i gyfarfod nos Lun, Ebrill 5 am 7 yn Festri Gorffwysfa.

## DYRCHAFIAD

Yn ddiweddar, etholwyd Mr. Thomas Jones, Stryd Newton yn gadeirydd pwyllgor rheolau sefydlog Cyngres Undebau Llafur Cymru am y flwyddyn hon. Bydd Mr. Jones yn mynd i'r gadair yn y cyfarfod blynyddol a gynhelir yn Llandudno, Ebrill 23 - 25.

## Mrs. MEM ROBERTS

Ar ôl gwaeledd o chwe wythnos bu farw yn 70 mlwydd oed ddiwedd Chwefror. Un o ffyddloniaid Gorffwysfa ydoedd, a gweddw y diweddar Richard Roberts.

## ARWEL ROBERTS

Dymuna teulu Merddyn Coch ddiolch i bawb am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn ystod arhosiad Arwel yn Ysbyty'r Royal, Lerpwl.

## O LANBERIS I UGANDA

Ymadawodd Mrs. Dilys Kisalu am Uganda ddechrau'r mis gyda'i dwy ferch, Christine a Manon, ar ôl aros am rai misoedd yn 3 Penybont gyda'i mam, Mrs. Suzie Roberts.



## ANRHYDEDD I NYRS

Y mae Mrs. Enfys Parry, Noddfa, yn un o chwech o nyrsus trwy Gymru sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol ar gyfer dewis nyrs y flwyddyn. Bydd Mrs. Parry a'i theulu yn ymddangos ar deledu Harlech.

## PENBLWYDD YN 98

Dyna hanes Mrs. Annie Roberts (gynt o 12 Dôl Elidir) ar Fawrth 10.

## AELWYD YR URDD

Llongyferchir y tîm Tenis Bwrdd ar eu buddugoliaeth dros dîm Aelwyd Porthmadog. Byddant yn chwarae Aelwyd Llangefni ar Ebrill 1. Llongyfarchion hefyd i dim Pêl-droed yr Aelwyd yn curo Aelwyd Llangefni. Byddant yn chwarae Aelwyd y Rhos (Wrecsam) yn y rownd gyn-derfynol. Bydd y rownd derfynol yn cael ei chwarae yn Aberystwyth ar Fai 15. Cynhaliwyd disco yn y Ganolfan nos Sadwrn, 27 Mawrth. Roedd yr elw tuag at Gronfa'r Aelwyd. Cymerodd yr Aelwyd ran mewn cwis i Aelwydydd a Chlybiau Ieuenctid yng Nghaernarfon.

## Y CYNGOR EGLWYSI

Nos Fawrth, 23 Mawrth, cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi gyda Mr. Hywel Morris (Capel Coch), Mr. Gwynfor Williams (Gorffwysfa) a Mr. J.S.Thomas (Preswylfa) yn cymeryd rhan. Llywyddwyd gan y Parch. John Owen.

## MRS. L. M. JONES

Bu farw Mrs. L. M. Jones, Minynant, Ffordd Capel Coch, yn 69 mlwydd oed wedi llesgedd hir. Gedy dair merch a mab.

## CLWB YR HENOED

Ar y 4ydd o Fawrth dathlwyd Gŵyl Ddewi gyda chinio i 141 o aelodau yng Ngwesty Victoria. Arweiniwyd y cyngerdd oedd wedi'i drefnu gan Mr. a Mrs. R. Jones, Glasfryn gan y Parch. John Owen. Cymrerwyd rhan gan y rhai canlynol : Mrs. Martin Owen, Mrs. Rosie Hughes, Mrs. M. Morris, Mrs. K.Owen, Mrs. K. Jones, Mr. Norman Jones, Mr. Jack Davies, Mr. Thomas Evans, Mr. Richard Jones, Mr. a Mrs. H.T.Jones, Mr. W.D.Williams. Y pianydd oedd Mrs. K. Jones. Diolchwyd ar ran y pwyllgor gan Mrs. Jan Davies a'r Parch. Ganon Alun Jones. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r rhai fu'n gyfrifol am gludo rhai o'r aelodau yn ôl a blaen i'r cinio.

## MERCHED Y BYD

Cynhaliwyd cyfarfod gweddi Merched y Byd yn festri Gorffwysfa ar Fawrth 5 dan arweiniad Miss C. Gillespie o Eglwys St. Padarn.

# NANT PERIS

## TE PARTI

Daeth tymor y Gobeithlu i ben unwaith eto a chafodd plant yr ardal de parti i ddiweddu'r tymor. Bu merched Rehoboth yn brysur yn paratoi gwledd ar eu cyfer o dan arweiniad Mrs. Betty Humphreys.

## EISTEDDFOD

Llongyfarchiadau i blant y Nant ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Ofalaeth. Daeth nifer fawr o wobrwyon i'r Nant ac mae'r plant i'w canmol yn fawr am eu gweithgarwch ynglŷn â'r Eisteddfod. Da iawn, blant. Daliwch ati.

## PRYNWR CYNTAF

Yn ôl pob tebyg, y prynwr cyntaf o gopi cyntaf Eco'r Wyddfa oedd Mrs. Brenda Roberts, Glanrafon. 'Roedd y gwerthwr, Mr. J.W.Ellis, yn curo ar y drws cyn i'r inc sychu ar y papur bron.

## COLLED

Ar ôl treulio bron iawn i hanner can mlynedd yn y Nant, llithrodd Mrs. Edith Lloyd Davies yn dawel o'n plith fore Sul, Mawrth 21, yn 84 mlwydd oed. Cymeriad tawel, siriol a boneddigaidd oedd Mrs. Davies, a bydd ei lle yn wag. Derbynied Mr. W. H. Davies a'r plant ein cydymdeimlad llwyraf â hwy yn eu profedigaeth chwerw. Da gennym ddeall fod William Davies ychydig yn well a mawr hyderwn y cawn ei weld o gwmpas eto yn ôl ei arfer.

## HEN ARFERIAD

Am y tro cyntaf ni welwyd plant yn mynd o gwmpas i ganu am grempog. Dyma hen arferiad arall yn darfod o'r tir.

## CEUNANT

Am y tro cyntaf ers cyn cof mae ffermdy Ceunant yn wag. Daeth y diweddar Mr. Thomas Pritchard a'r teulu yma tua hanner can mlynedd yn ôl a pharhaodd y cysylltiad hyd yr wythnos ddiwethaf. Pwy tybed a ddaw yma eto?

## CLWB IEUENCTID

Ni fu unrhyw weithgareddau yn y Clwb yn ystod y mis oherwydd anhwyldeb ar yr arweinydd, Mr. Kenneth Jones. Dymunwn iddo gael gwellhad llwyr a buan i ail ddechrau ar ei waith.

## FFILMIO

Deallwn y bydd Mr. William Aaron yn ymadael â'r ardal yn fuan i'r Unol Daleithau. Ffilm yn dilyn teithiau cyntaf Madog fydd hon. Dangosir hi ar BBC2 a BBC Cymru ddechrau'r gaeaf.

## CLWB METHEDIG ERYRI

Etholwyd y canlynol yn ychwanegol at y Pwyllgor : Mrs. E. Jones, Delfryn, Ffordd Capel Coch, Mrs. Mary Thomas, 15 Ffordd Tŷ Du, Miss Gwyneth Jones, Ardwyn, Ffordd Capel Coch.

## LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. C. P. Jones ar gyrraedd pum mlynedd ar hugain o fywyd priodasol.

# CHWEDLAU'R FRO

gan JOHN OWEN HUWS

**Adroddir llawer o hanesion am bysgod yn ardal Llanrug a Llanberis, fel y gellid disgwyl mewn bro sydd â chymaint o lynnoedd. Yr enwocaf o'r rhain yw'r torgoch, ac fe'i gwelir yn Llynnoedd Peris a Phadarn. Fodd bynnag, mae i'w weld hefyd yn Llynnoedd Cwellyn, Cwm Silyn a Chwm Dulyn a dywedir fod twnel yn eu cysylltu oll, ar hyd yr hwn y nofia'r torgoch.**

Ond sut y daeth y torgoch i Lanberis i ddechrau? Tybir y byddai'n dod i fyny o'r môr i ddodwy ar un adeg ac iddo gael ei ddal yma pan ddaeth Oes y Rhew. Mae gan y werin esboniad arall. Dywedir mai Peris Sant ddaeth â'r pysgodyn i'r ardal ac iddo roi rhai i Garmon Sant, a'u rhoddodd yn Llyn Cwellyn, a rhai i Gredyw Sant a'u rhoddodd yn Llyn Dulyn, neu Lyn y Torgochiaid.

Mae llawer o hanesion am y dull o ddal y torgoch. Ymddengys mai'r ffordd orau o'i ddal oedd i nifer bysgota gyda'i gilydd a gollwng yr abwyd i wahanol ddyfnderoedd. Heidia'r torgoch mewn dŵr dyfn ac o ganfod yr haid, gallai pawb gael helfa fras. Gellir eu dal â phlu neu gynrhon, er y dywed traddodiad nad ydynt yn bwyta dim.

STORI WILLIAM JONES, FACHWEN

Nid y torgoch yw unig ryfeddod Llyn Peris. Dywedir i of y chwarel, William Jones, Fachwen fynd i bysgota yn ei gwch i ymyl Pont y Bala un dydd Sadwrn. Ar ôl pysgota am beth amser teimlodd blwc anferth a chyn pen dim 'roedd y cwch ac yntau'n cael eu tynnu i lawr am Ben Llyn gan glamp o bysgodyn. Bu'n chwyrnellu mynd ar hyd y llyn am oriau, a'i wraig ar y lan yn taflu bynsan iddo bob tro'r âi heibio! Dywed fersiwn arall iddo stopio trên y chwarel a chael cymorth y chwarelwyr i lanio'r pysgodyn. Honnir i'r llyn ddisgyn rai troedfeddi ar ôl ei dynnu allan!

Y PROFIAD RHYFEDDAF

Mwynwr o waith copr yr Wyddfa, a aeth i bysgota i'r Glaslyn tua 1810, a gafodd y profiad rhyfeddaf. 'Roedd wedi sylwi ar bysgod nobl yn codi yn y llyn a rhedodd i'r barics am ei enwair. Gosododd bluen cynffon dryw yn ysgafn ar y llyn, ond ni wnaent ddim â hi. Rhuthrodd i Hafoty Cwm Dyli am bryfaid genwair a'i tro yma nid oedd yr abwyd ond prin wedi cyffwrdd y dŵr na chymerwyd ef. Plygodd yr enwair fel walbon ond daliodd y mwynwr ei afael. Yn sydyn cododd trychfil fel llyffant anferth o'r llyn a rhuthro amdano, gyda'i geg yn llydan agored gan ddangos dannedd creulon. Gollyngodd y mwynwr ei enwair a rhedeg am ei fywyd. Ni welwyd y trychfil wedyn, ond y mae'n dal yno — am a wn i.

## CRONFA GOFFA WMFFRA ROBERTS

*Annwyl Olygydd,*

*Cronfa Goffa Wmffra Roberts*

*Mae amryw o gyfeillion y diweddar Wmffra Roberts wedi gofyn am ddull parhaol i goffau amdano. Oherwydd hyn, penderfynwyd gan Bwyllgor Rhanbarth Arfon o Blaid Cymru agor Cronfa Goffa ac yn unol â'i ddymuniad ei hun tra'r oedd yn fyw, i ddefnyddio'r gronfa i wella'r cyfleusterau yn Swyddfa Plaid Cymru ym Mhenllyn, Caernarfon ac i osod carreg goffa ar y swyddfa.*

*Trwy wneud hyn, teimlwn y sicrhawn fodd parhaol i goffau am un a gyfrannodd gymaint i lwyddiant y Blaid yn Arfon, ac un a wasanaethodd ei 'filltir sgwâr' hyd yr eithaf. Gan fod Swyddfa Penllyn hefyd yn gweithredu fel Swyddfa Etholaeth, ac felly yn cael ei defnyddio i ddibenion cyhoeddus, megis ar gyfer cymorthfeydd, teimlwn y bydd cyfeillion nad ydynt o'r un daliadau gwleidyddol yn fodlon cyfrannu er cof am un a oedd yn uchel yng ngolwg pobl ymhob plaid a phobl heb unrhyw gysylltiad gwleidyddol.*

*Dylid anfon pob cyfraniad, mawr a bach, at Mr. Dewi Thomas, Trysorydd Cronfa Goffa Wmffra Roberts, Gwelfor, Rhostryfan, Gwynedd. Bydd y gronfa ar agor am flwyddyn a chyhoeddir y trefniadau ar gyfer dadorchuddio'r gofeb tua diwedd y flwyddyn. A gaf fi, fel un â chymaint i ddiolch i Wmffra, apelio atoch chwi am eich rhoddion hael i gydnabod cyfraniad enfawr y Cymro a'r cenedlaetholwr annwyl hwn.*

*Yr eiddoch yn ddiffuant,*

*Dafydd Wigley,*

*Aelod Seneddol Arfon.*

## GYDA DIOLCH

Derbyniwyd cyfraniadau gan y canlynol tuag at y gost o sefydlu Eco'r Wyddfa :

£3. Jenny Davies, Llangeitho, Tregaron, Ceredigion.

£1. Mr a Mrs G. Lovatt, Brwynog, Llanrug; Miss D. Selleck, A.E.M., Berwynfa, Y Bala.

Gyrrwch eich cyfraniadau i'r Golygydd, 'Gwên-y-Wawr' Glanffynnon, Llanrug.




**Pris £9650**

# TAI NEWYDD AR WERTH YN LLANRUG

o wneuthuriad rhagorol gan adeiladydd lleol. Stâd heb fod yn rhy fawr, yn agos i'r siopau, ysgolion a bysys. Yn mwynhau golygfeydd ardderchog tua'r Wyddfa ac yn llygad yr haul.

CYFNOD CYNTAF : TAI PÂR ( SEMI - DETACHED ) GYDA GWRES CANOLOG NWY

**AR Y LLAWR**

Stafell Fyw, Stafell Fwyta Cegin helaeth wedi'i dodrefnu, Ail Dŷ Bach a Stafell Gotiau.

**I FYNY'R GRISIAU**

Tair llofft dda, Stafell 'Molchi, Stôr, Cwpwrdd Sychu Dillad.

**TU ALLAN**

Gardd Fawr, Garej a Gweithdy cyfunol gyda dŵr a thrydan wedi'i cysylltu.

YR ADEILADYDD

**S&M.BURGESS**
MELIN SEIONT
**CAERNARFON**
FFÔN 2039

Y GWERTHWYR

**CHAS MEDFORTH & CO**

Y BONT BRIDD
CAERNARFON
FFÔN 2924 & 2989

HOLWCH AM DAI RHIF PR/1165 E

# DINORWIG

### CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL


Nos Iau, Chwefror 19, yn y Ganolfan, bu'r cyfarfod olaf am y flwyddyn, pryd y diddorwyd yr aelodau mewn canu gan Stephen a Kevin Jones; Trebor Thomas; Misses Annette Roberts, Olwen a Marina B. Roberts; Mrs Jennie Williams; Mr Humphrey Williams; Mri David J. Thomas, Evan B. Roberts ac Owie Gibson (deuawdau). Darlleniad gan Mr Hugh Thomas o benillion a gyfansoddwyd ar gyfer y noson gan Mr John Roberts, a chafwyd darlleniadau o farddoniaeth ysgafn a doniol gan Mr Eddie W. Lewis. Cyflwynwyd sgetsiau doniol wedi'u trefnu a'u cynhyrchu gan Miss E. Wynne Jones. Cymerwyd rhan ynddynt gan Misses Annette, Olwen, a Marina B. Roberts; Mr a Mrs R.H. Williams; Mrs M.Hughes; Mr Eddie W.Lewis; Mr a Mrs O.R.Williams. Mwynhawyd lluniaeth ysgafn wedi'i drefnu gan chwiorydd y pwyllgor. Llywyddwyd gan y Parch Ifor L.Williams (B), Bangor. Talwyd y diolchiadau gan Mrs Betty L. Roberts a Mrs Alice Griffith.

Dewiswyd swyddogion a phwyllgor am y flwyddyn nesaf. Llywydd : Mr Eddie W. Lewis, Rhydfadog; Ysgrifennydd : Mrs Dilys Williams, Tŷ Capel, Dinorwig. Trysorydd : Mrs Nellie Williams, 2 Bro Elidir. Aelodau'r pwyllgor : Mr David L. Hughes, 2 Maes Eilian; Mr J.Eryl Roberts, 3 Maes Eilian; Mrs Annie Roberts, 3 Maes Eilian; Mr Humphrey Williams, 10 Maes Eilian; Mrs Jennie Williams, 12 Maes Eilian; Mrs Medwen Griffith, Foel; Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir; Mr David J. Thomas, Tŷ Capel Sardis; Mrs Irene Morris, 4 Maes Eilian.

Y swyddogion am y tymor oedd: Llywydd : Mr O.R.Williams 2 Bro Elidir. Ysgrifennydd :Mrs Betty L. Roberts, 11 Maes Eilian. Trysorydd : Mrs Katie Griffith, Arwelfa.

### DYDD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD MAWRTH 5

Yng Nghapel Sardis (B) prynhawn Gwener, Mawrth 5, cynhaliwyd cyfarfod gweddi perthynol i'r uchod. Gwnaed y trefniadau lleol gan yr Ysgrifennydd, Mrs Alice Griffith, Tan-y-Bwlch. Llywyddwyd gan Mrs Nellie Williams, 2 Bro Elidir. Cymerwyd rhan mewn defosiwn a darlleniadau a gweddiau gan Mrs Medwen Griffith, Foel; Mrs Dilys Williams, Tŷ Capel Dinorwig; Mrs Betty L. Roberts, 11 Maes Eilian; Mrs Maggie Evans, Dublin House; Mrs Elizabeth Jones, Foelgron; Mrs Annie Roberts, 3 Maes Eilian; Mrs Annie Jones, 5 Maes Eilian; Mrs Dora Jones, Bryn Hyfryd. Yn ei habsenoldeb darllenwyd anerchiad a baratodd Mrs Katie L. Hughes, 2 Maes Eilian, ar y thema "Dysgu wrth Fyw" gan Mrs Katie Griffith, Arwelfa. Derbyniwyd y casgliad gan Mrs Ada Thomas, Tŷ Capel Sardis, a Mrs Betty Roberts, 7 Maes Eilian.



*Nos Lun, Mawrth 9fed, fe neilltuwyd rhaglen gyfan ar HTV Cymru i drafod problemau llwch. Yn y llun gwelir y rhai a gymerodd ran. O'r chwith i'r dde : R. H. Jones, Clwt-y-Bont, Griffith Pleming, Deiniolen, John Evans, Clwt-y-Bont a J. W. Ellis, Nant Peris.*

### LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Andrew Griffith, Tan-y-Bwlch, ar enedigaeth Gwyn Owain, eu wyr cyntaf, ar Fawrth 4 yn Ysbyty Caerffili.

### YN YR YSBYTY

Da gennym ddeall fod Miss Einir Jones, Tan y Buarth Uchaf, yn gwella ac wedi dod adref o'r ysbyty.

### GWAELEDD

Dymunir gwellad buan i amryw o'r ardal sydd wedi bod yn cwyno yn ddiweddar.

### Cyfarchiad byrfyfyr i'r Wyddfa. Tachwedd 1928

**Yr wyt yn oer tan eira — a niwloedd**
**Hudolus y gaea,**
**Hyd nes dyfod rhod yr ha'**
**Wyddfa wen, ni ddof yna.**

Ar achlysur ail-agor Capel M.C. Dinorwig. Ar ôl atgyweirio, mae'n debyg, ond nid oes ddyddiad.

**Yn dawel i'r Cysegr deuwn, — a'i hardd**
**Newydd wisg edmygwn;**
**Heddiw'n wir mewn hedd yn hwn**
**Yn ddilesg yr addolwn.**

**Duw, rho dy wedd i do ar do — a thrig**
**O'th ras amlwg ynddo;**
**Mwynaf fan i minnau fo**
**Nes elwyf i noswylio.**

*gan y diweddar*
*Thomas Jones-Parry, Dinorwig.*


**O'r Stabal**

GRAND NATIONAL AINTREE

**COLERIDGE**
**SPANISH STEPS**
**neu**
**SNOWDON ECHO**
*(Bob Ffordd)*
yw cyngor Eco'r Wyddfa i bawb sydd â chlust i wrando
**DED SYRT!**
ynte "ded loss" ddwedodd y dyn, dwedwch?


# PERYGL TÂN

**Gair bach i'ch atgoffa o beryglon tân gan Mr. T. Eric Edwards, Prif Swyddog Tân Gwynedd.**

**A wyddoch fod dros fil o bobl yn colli eu bywydau mewn tân bob blwyddyn, a'r rhan fwyaf yn marw yn eu cartrefi eu hunain?**

Gwelwch oddi wrth y rhestr isod fod tân simdde yn gyffredin iawn yn yr ardal, ac mae'n bwysig i bawb sylweddoli peryglon tân o'r math yma. Mae'n anodd credu fod pobl yn colli eu bywydau mewn tân fel hyn, ond rhaid sylweddoli mai drwy lwc yn unig y mae pobl ar eu traed pan fydd huddugl yn disgyn o'r simdde i'r tân. Lawer gwaith bydd y simdde ar dân heb i'r teulu wybod hynny. Beth ddigwyddai, tybed, pe disgynnai huddugl o'r simdde yn oriau mân y bore a'r lle tân ddim wedi ei ddiogelu?

Peidiwch, da chwi, â cheisio glanhau'r simdde drwy ei rhoi ar dân. Ffordd hen-ffasiwn, beryglus iawn! Cysylltwch â dyn sydd yn arbenigo yn y gwaith yma (glanhawr simneiau), er mwyn diogelu eich cartrefi. Ffrind da yw tân yn ei le, ond cofiwch fod tân allan o reolaeth yn achosi trychineb o'r math mwyaf. Cofiwch fod cyngor ar Atal Tân i'w gael o'r Swyddfa yng Nghaernarfon. Os bydd angen cymorth arnoch, ysgrifennwch ataf fi ym Mhencadlys Tân Gwynedd, Ffordd Llanberis, Caernarfon (Ffôn : Caernarfon 3811).

RHESTR TANAU 1976
(Chwefror a Mawrth)

5 Chwefror : Clegir, Llanberis (Tân-ddiffoddwyr Llanberis) — Tân Eithin. 10 Chwefror : Ysgol Brynrefail (Tân-ddiffoddwyr Caernarfon) — Pibell ddŵr wedi hollti. 2,400 galwyni o ddŵr yn cael ei gario gan beiriannau tân.

11 Chwefror : Gors, Penisarwaun (Tân-ddiffoddwyr Llanberis) — Tân Eithin. 20 Chwefror : Marchlyn Mawr (Diffoddwyr Llanberis a Chaernarfon) — Silindr nwy (Propane) yn ffrwydro ac yn llosgi Swyddfa Peirianwyr MBZ.

25 Chwefror : Fferm Gwyndy, Bethel (Diffoddwyr Caernarfon) — Tân simdde. 1 Mawrth : 1, Gwyn Terrace, Deiniolen (Diffoddwyr Llanberis) — Tân simdde. 9 Mawrth : Y Goat, Llanberis (Diffoddwyr Llanberis) — Tân eithin. 10 Mawrth : 38 Rhyd Fadog, Deiniolen (Diffoddwyr Llanberis) — Tân simdde.

17 Mawrth : Upper Rock Terrace, Llanberis (Diffoddwyr Llanberis) — Tân simdde.

# DYFODOL Y NANT

**Wyddech chi fod pwyllgor wedi ei sefydlu i drafod dyfodol Nant Peris? Ar y pwyllgor mae cynrychiolwyr Cyngor Mynydda Prydain (J. Brailsford, Deiniolen), yr Heddlu, Wardeniaid y Parc Cenedlaethol, Cyngor Cymuned (Mr. J. W. Ellis, Mr. O.W.Humphreys), Y.H.A. (Mr. H. Lloyd, Pen-y-Pass) a swyddogion o Gyngor Sir Gwynedd.**

Cyfarfu'r grŵp am y tro cyntaf yng Nghaernarfon ar Fawrth 4. Trafodwyd problem aruthrol y parcio yn y Bwlch. Er i filoedd o bunnau o arian trethdalwyr gael eu gwario ar faes parcio yn Nant Peris, siomedig fu'r ymateb i'r ddarpariaeth hon. Ymddengys mai parcio ym Mhen-y-Pass neu o gwmpas pont y Gromlech yw dymuniad y modurwyr.

Y mae cynlluniau ar y gweill i adeiladu bloc o doiledau wrth y safle picnic a'r maes parcio presennol yn y Nant. Ymddengys hefyd nad yw'r cynllun "Ewch â'ch sbwriel adref" y ceisiwyd ei weithredu yn y maes parcio yn llwyddiannus o gwbl.

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r gwersylla 'gwyllt' ar ochr y Bwlch. Teimlid fod yma beryglon i iechyd o gofio mai oddi yno y daw cyflenwad dŵr y Nant.

Cafwyd adroddiad ar arbrawf yr A.A., sef parcio'r ceir yn y pentref a threfnu teithiau bysiau i fyny'r Bwlch. Nid oedd hyn yn llwyddiant o gwbl. O ganlyniad, trafodwyd y posibilrwydd o ymestyn gwasanaeth arferol Crosville hyd at Benygwryd yn hytrach na throi'n ôl yn y Nant Uchaf. Byddai gwasanaeth newydd o amgylch mynyddoedd Eryri yn bosibilrwydd hefyd.

Bu'r bygythiad i gerrig y Gromlech gan gynllun gwella'r ffordd yn bwnc llosg yn ddiweddar. Oherwydd pwysau trwm gan lawer o fudiadau ac unigolion, gan gynnwys Bwrdd Mynydda Prydain, y Cyngor Cymuned, Cymdeithas y Parc Cenedlaethol a Chyngor Gwarchod Cymru Wledig ynghyd â deiseb wedi'i harwyddo gan 815 o bobl, penderfynodd y Cyngor Sir newid llwybr y ffordd ar gost o £20,000.

Cytunwyd y byddai Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn paratoi adroddiad yn awgrymu gwahanol ddulliau o ateb y problemau hyn ar gyfer y cyfarfod nesaf. Yn y cyfamser, buasent yn falch o gael sylwadau trigolion yr ardal drwy gyfrwng eu cynrychiolwyr ar y Gweithgor.

# Tewch a D'eud

**Beth am ddechrau colofn yn dwyn yr enw uchod? Gyrrwch fanion diddorol yn null y cyfraniadau isod i'r Golygydd, 'Gwên-y-Wawr', Glanffynnon, Llanrug. Gall y golygydd ddod draw am sgwrs os mynn y cyfrannwr.**

CWM-Y-GLO

gan E.M.W.

Sut y cafodd y lle yr enw yma tybed? Mae tri gwahanol ddehongliad ar yr enw. Yn gyntaf, mai Cwm-y-Clo ddylai'r enw fod am fod y mynydd yn rhedeg yn syth i lawr i Lyn Bygelyn ac felly yn cloi'r Cwm. 'Roedd Cwm-y-Glo yn enw ar y lle ymhell cyn sôn am wneud y ffordd fawr drwy'r lle tua 1828.

Mae'r ail ddehongliad eto yn cyfeirio at Cwm-y-Clo a hynny o achos fod troliau yn gorfod 'cloi' eu holwynion wrth ddod i lawr 'Gelltydd y Bryn' o gyfeiriad Bryn Bras.

Y trydydd, a'r hyn sy'n gywir yn ôl y diweddar Athro Melville Richards yw mai Cwm-y-Glo yw'r enw iawn ar y lle oherwydd mai yma y llosgwyd coed i wneud golosg (coke) yn yr hen amser. Yr un ystyr sydd i Goed Poeth ger Wrecsam.

'Roedd fferm o'r enw Cwm-y-Glo yn talu'r Degwm i Eglwys Llanrug yn 1750. Tybed a ŵyr rhywun ym mhle yn union yr oedd y fferm honno?

'CWM' YN WAHANOL

Mae'r pentref yn wahanol mewn un ystyr i bentrefi'r fro am mai nid dyfodiad y chwareli oedd y prif reswm am dyfiant y pentref. Gwelwn fod y golosgwyr yma yn gynnar yn y ddeunawfed ganrif os nad ynghynt ac yn rhoi dechrau i'r pentref.

PORTHLADD

Bu'r Cwm fel rhyw fath o borthladd bach hefyd pan gludwyd copr o fwyngloddfeydd yr Wyddfa gyda chychod i lawr hyd y llynnoedd i'r Cwm hyd at yr Aber, fel y'i gelwir heddiw, yng nghefn yr ysgol. Yna ei gario â mulod dros y Bryn a heibio i Bryn Bras ac i lawr i Gaernarfon. Tyfodd y pentref eto yn y cyfnod yma. Bu lle cyffrous iawn yma yn yr amser gynt gyda'r mwynwyr yn dod i lawr o Nant Peris, a gweithwyr y cychod a'r mulod ynghyd â phobl yr ardal. 'Roedd yma feddwi a chwffio bob nos yn yr amryw dafarnau. Yn ôl hanes sefydlu'r Capel, felly y bu am yn agos i ddeugain mlynedd hyd at Ddiwygiad 1859.

*Wyr rhywun faint o dafarnau fu yng Nghwm-y-Glo? Beth oedd eu henwau tybed? (Gol.)*

O O

DARGANFOD AUR YN Y NANT

Yn ddiweddar, dechreuwyd ar y twnel anferth a fydd yn cario'r Afon Seiont o dan y Derlwyn i Lyn Padarn. Fe fydd y twnel, a fydd yn cychwyn o chwarel Gallt y Llan dros ddwy filltir o hyd ac fe gymer fisoedd lawer i'w dyllu.

Fe fydd y twnel yn rhedeg drwy'r fan lle bu tyllu am gopr yn ystod y ganrif ddiwethaf.

Dywedodd un o drigolion y Nant iddo glywed pan yn blentyn am ddyn a oedd yn cerdded adref o Wauncwmbrwynog dros y Derlwyn. Collodd ei draed gan godi tywarchen ac oddi tani gwelodd wythien o gopr pur. Gosododd y dywarchen yn ôl dros y wythien gan feddwl dychwelyd yno a gwneud ei ffortiwn. Dychwelodd, ond er chwilio a chwilio, ni ddaeth o hyd i'r wythien yr ail dro.

Yn ystod y ganrif ddiwethaf, fe fu cloddio am y wythien. Yr oedd yn 14 modfedd o led, ond fe'i collwyd yng nghrombil y Derlwyn.

Tybed a ddaw'r cloddwyr newydd o hyd i'r cyfoeth yng nghrombil y Derlwyn? Tybed a fydd teuluoedd yn heidio i'r ardal eto fel ar ddechrau'r ganrif, ond y tro hwn i gloddio am gopr ac nid am lechen?

## BRYN-REFAIL

CLWB YR EFAIL

Cafwyd swper a chyngerdd i ddathlu Gŵyl Ddewi yng Nghlwb yr Efail o dan lywyddiaeth Mr G. Pritchard, Glyn Afon. Ymunodd y pwyllgor ac aelodau'r clwb i ganu caneuon gwladgarol. Cafwyd nodiadau am Ddewi Sant gan Mrs Eifiona Jones, unawdau gan Miss Mary Hughes, Gors Wen, Mrs J. Roberts, Creigle, Mrs Eifiona Jones, Bron Eryri a Mr Neville Roberts, Creigle. Canu penillion : Mrs Betty Knox, Siop Ganol. Adroddiadau : Miss B. Owen, Orwig Terrace, Mrs J. Maxwell, Bro Dawel a Mrs J. Hughes, Bryngarth. Sgets 'Gwerthu Buwch gan Mrs H. J. Jones a Mrs Gwyneth Jones, Trem Eilian a Mrs J. Hughes, Bryn Garth. Deuawd Actol gan Mrs J. Williams, Bryn Melyn a Mrs H.J.Jones. I orffen cafwyd gwledd o bob math o ddanteithion wedi ei threfnu gan y chwiorydd. Trefnwyd y cyfarfod a chyfeiliwyd gan Mrs Eifiona Jones, Bron Eryri.

Nos Fawrth, Mawrth 16, gyda Mr E. Pritchard yn llywyddu, croesawyd atom Miss Joan Thomas o'r Llyfrgell yng Nghaernarfon. Cafwyd sgwrs ddarluniadol ar Eifion Wyn ganddi. Diolchwyd iddi gan Mrs N.F.Williams, Glanffrwd, a chafwyd gair ymhellach gan Mrs Jennie Roberts, Glandwr, a Mrs Eifiona Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs H.J.Jones a Mrs Gwyneth Jones, Trem Eilian.


10% oddi ar Bapur Wal a Phaent Leyland & Jellipex yn

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS FFÔN 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD


## Colofn y DYSGWR

**Annwyl Ddysgwyr,**


**Dyma eich colofn chi. Rydw i'n gobeithio eich bod yn mwynhau dysgu Cymraeg. Cewch help i ddysgu drwy wrando ar 'Dewch i Siarad' ar y radio neu wrth fynd i Ysgol Nos.**

Dyma ychydig o eiriau i chi dros y Pasg.

Y Pasg – *Easter.* Dydd Gwener y Groglith – *Good Friday.* Dydd Sul y Pasg – *Easter Sunday.* Dydd Llun y Pasg – *Easter Monday.* Wy Pasg – *Easter egg.* Cyw – *Chick.* Gwyliau'r Pasg – *Easter Holidays.* Gwyl y Banc – *Bank Holiday.* Eglwys – *Church.*

Capel – *Chapel.*

Dyma groesair bach i chi. Bydd yr atebion yn Eco'r Wyddfa mis Mai. Un llythyren ydy Ch, Dd, Ff, Ng, Ll, Ph, Rh, Th yn Gymraeg.



AR DRAWS

1. Cyfarchiad (4. 2.)
5. Roedd yr Eisteddfod Genedlaethol llynedd ym Mro.....(6)
7. Coch, glas, melyn (3)
8. Nonsense
9. Mewn ac.........(4)
12. Croes i yn ennill (2.4.)

I LAWR

1. Rydyn ni'n ....mewn tŷ (3)
2. Rhif heb H (3)
3. Rydw i'n......y llyfr (6)
4. Uwchben ceg (5)
5. Mynd ar ôl (to follow) (5)
6. "Forward" (6)
10. Ati hi, .......fo (3)
11. Mae o, mae ...(2)

## llyfrau

DROS BONT PENLLYN
I YSGOL SIR BRYNREFAIL
(Mat Pritchard)

**Un o'r pleserau mwyaf i mi ar ddechrau 1976 oedd derbyn copi o lyfr Mat Pritchard, 'Tros Bont Penllyn i Ysgol Sir Brynrefail'. Eisteddais i lawr a'i ddarllen ar un eisteddiad. Fedrwn i ddim gadael llonydd iddo. Y mae'n amlwg nad myfi yn unig o'r hen ddisgyblion sydd wedi cael y pleser hwn, gan i neb llai nag Archesgob Cymru anfon llythyr agored at yr awdures.**

O DDIDDORDEB I BAWB

Dichon y dywed ambell un ei fod yn gyfyng ac o ddim diddordeb ond i ychydig ohonom oedd yn yr ysgol yn y 'cyfnod canol' fel y geilw'r awdur y cyfnod. Ond fe wn i am rai nad oedd ganddynt gysylltiad o gwbl â'r hen ysgol, rhai na fu erioed yn ddisgyblion yno, sydd wedi cael blas ar ei ddarllen.

AMSERAU CALED

Mae ynddo hanesion diddorol am y ffordd y deuai'r plant i'r ysgol efo tren i Gwm-y-glo a cherdded oddi yno dros 'Bont Penllyn'. Yna daeth 'bysus bach y wlad', heblaw am y cerdded a oedd yn lles mawr inni – ond ar dywydd gwlyb! Cawn hanes y chwarelwr hefyd pan na dderbynient ond saith a thair yn y dydd o gyflog, a'r broblem a gâi'r gwragedd i gael dau ben llinyn ynghyd a chadw'r plant yn y Cownti.

LLUNIAU

Y mae'n hyfryd gweld y lluniau o'r plant a'r athrawon. Rhai o'r lluniau yn dangos y gweithgareddau cymdeithasol – caneuon actol, dramâu etc. Atgofir ni am y ddau brifathro na siaradent air o Gymraeg â ni erioed. Cawn deyrnged ynddo i "frenin yr athrawon" sef Mr. Robert Morris.

Mae'r iaith yn gaboledig, ac eto yn ystwyth a darllenadwy. Diolch i Gyngor Gwlad Arfon am ei gyhoeddi ac i Wasg Gwynedd am ei argraffu, a diolch fwy fyth i Mat am ei ysgrifennu.

**"Un o'r hen griw"**

# SIBRYDION O'R YSGOLION

## Ysgol Brynrefail

### DISGYBL NEWYDD YN YR YSGOL

Dydd Llun, Mawrth 22, estynwyd croeso i Helene Py i'r ysgol. Chwaer i Chantal, myfyriwr o Ffrainc sydd ar gwrs yn y wlad hon i wella ei Saesneg ac sydd yn cynorthwyo i ddysgu Ffrangeg yn ysgolion Brynrefail a Dyffryn Ogwen, Bethesda, yw Helene. Mae yn aros gydag Anwen Jones, disgybl o'r pumed dosbarth. Dechreuwyd gwneud trefniadau i Helene ddod drosodd i Gymru pan gynigiodd Chantal fynd â rhai o ddisgyblion yr ysgol i Ffrainc yn ystod gwyliau'r Pasg. Bu anawsterau ynglŷn â'r cynllun hwn a phenderfynwyd gwneud cyfnewid rhwng Anwen a Helene. Gyda'r trefniant hwn caiff y ddwy gyfle i ymarfer eu hieithoedd tramor. Bydd Helene yn aros yma am bythefnos; yna, yn ystod gwyliau'r Pasg, â Anwen i Ffrainc i aros gyda Helene a'i theulu yn Taverny ger Paris. Dymunwn wyliau pleserus i'r ddwy.

### GWŶR GWADD YN YR YSGOL

Brynhawn dydd Gwener, Mawrth 5, daeth Mr. Ellis, Swyddog Prawf o Fangor, i siarad â disgyblion y chweched dosbarth. Rhoddodd amlinelliad diddorol o'i waith, ac o swyddi tebyg.

Yr wythnos ganlynol cafwyd pnawn difyr arall gan y chweched dosbarth pan ddaeth Mr. Charles Jones o Gricieth i ddisgrifio ei waith. Gwneud llwyau serch yw gwaith Mr. Jones a rhoddodd fraslun o'u hanes yn ogystal ag arddangos rhai ohonynt.

### EHANGU GORWELION Y CHWECHED DOSBARTH

Ar yr 8fed o Fawrth bu dosbarth Saesneg y chweched flwyddyn ar gwrs undydd ar ddrama Harold Pinter, "The Caretaker". Cynhaliwyd y cwrs gan aelodau o Gwmni Drama Clwyd yn Theatr Gwynedd, Bangor. Cafwyd cyflwyniad i waith Pinter yn y bore, ac yna perfformiad o'r ddrama yn y prynhawn.

Bu aelodau o'r chweched dosbarth hefyd ar gwrs a gynhaliwyd yn y Neuadd Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor ar Fawrth 19. Cafwyd golwg ar fywyd Cymraeg y coleg yn y bore, ac yna gwelwyd perfformiad o ddrama ddiweddaraf John Gwilym Jones, "Ac Eto Nid Myfi" gan Gwmni Drama Coleg y Brifysgol, Bangor yn Theatr Gwynedd.

### TRIPIAU

Cynhaliwyd nifer o dripiau o'r ysgol yn ystod y mis. Ar yr ail o Fawrth, bu disgyblion y pumed a'r chweched dosbarth yn gweld "Henry IV" yn Theatr Gwynedd gan gwmni ROSTRA. Bu dosbarthiadau'r flwyddyn gyntaf yn Llanberis yn Amgueddfa Chwareli Gogledd Cymru. Aeth llawer o ddisgyblion i ddawns a gynhaliwyd yn Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda, nos Wener, 26 o Fawrth. Bu nifer o ddisgyblion y chweched dosbarth yn gweld perfformiad o ddrama Shakespeare, "The Tempest" brynhawn dydd Mercher, Mawrth 31. Hefyd bu disgyblion y pedwerydd a'r pumed dosbarth yn Theatr Gwynedd yn gweld ffilm Peter Brook o nofel enwog William Golding, "Lord of the Flies".

### YSGOL DOLBADARN LLANBERIS ADRAN YR URDD

Dydd Mercher, Mawrth 3, bu Adran yr Urdd Ysgol Dolbadarn yn dathlu Gŵyl Ddewi. Dechreuwyd am 1.30 pryd y dangoswyd ffilm newydd yr Urdd, sef "Dyma'r Urdd" gan Mr. Gwyn Jones o Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth. Cyflwynwyd siec am £85 i Mr. Jones, sef cyfraniad yr aelodau at Gronfa Genedlaethol yr Urdd, a gasglwyd yn ôl punt-y-pen. Ar ôl y ffilm, cafwyd te parti, dawnsio, chwaraeon a chystadleuaeth hetiau Cymreig neu hetaiau ar gyfer y Pasg.

Yr enillwyr oedd :
Safon 1. (1) Morfen Hughes. (2) Beverley Muldoon. Safon 2 (1) Steven Thomas. (2) Irene Evans. Safon 3 (!) Kieron Hughes. (2) Lynne Jones. Safon 4 (1) Elaine Jones. (2) Debra Ellis. Het Kieron Hughes, Safon 3, ddyfarnwyd yn orau yn y gystadleuaeth.

### YSGOL PENISARWAUN ADRAN YR URDD

Bu ugain o blant yn treulio penwythnos yng Ngwersyll Glanllyn yn ddiweddar. Cafwyd cyfle i fwynhau gweithgareddau fel Dawnsio, Teithiau Cerdded, Chwaraeon yn y Gampfa, rhwyfo ar Lyn Tegid, yn ogystal â miri Noson Lawen; hyn i gyd heb sôn am y pleser o gael bod ar "Y Sgwad Bwyd".

### CADAIR EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL
### STORI FER FUDDUGOL BRONWEN WILLIAMS
### TYFU

**"Rwy'n siŵr fod tipyn o dwll yn dy boced ar ôl prynu'r dillad yna," hitiodd llais Meri yn glep ar yr awyrgylch llonydd. "Does dim eisiau iti fod yn genfigennus, Meri" atebodd Bethan, "'roeddwn i wedi byw'n fain ers wythnosau i gael y dillad ar gyfer y ddawns heno."**

**Safodd Bethan yng nghanol yr ystafell fach, flêr, lle'r oedd y rhan fwyaf o'r staff yn cael eu cinio neu baned o de; amdani, gwisgai'r dillad newydd. Gafaelodd y ffrog las tywyll yn dyner am ei chorff bychan, tenau a disgynnodd y siôl wen yn esmwyth ar ei hysgwyddau. Yn wir, 'roedd Bethan wedi talu dipyn mwy o bres am y dillad nag a fwriadodd, ond teimlodd fod yn rhaid iddi dalu'n iawn am ddillad da, fel y dywedodd ei mam wrthi ganwaith. Cerddodd o amgylch yr ystafell gan ddangos ei hun i bawb os oedd ganddynt ddiddordeb neu beidio, ac edrychodd yn llawn edmygedd ohoni ei hun. Fyddai neb gyda ffrog o'r siap na'r lliw yma, meddai wrthi ei ei hun. Gwelodd ei ffrindiau y fflach o falchder yn ei llygaid, ac aethant ymaith i'r swyddfa i ddechrau gweithio.**

'Roedd ysbryd pawb yn y gwaith wedi codi oherwydd y ddawns a oedd i fod y noson ddilynol. Wrth gwrs, 'roedd y genethod i gyd yn ceisio cynllunio i edrych ar eu gorau gan y byddai bechgyn o'r Unol Daleithau yno. Gweithiai pedair merch a phedwar bachgen, heblaw y pennaeth, yn y swyddfa bapur newydd; roedd Meri a Siân yno ers pum mlynedd, y bechgyn ac Elin ers blwyddyn, a Bethan ers deufis. Newydd adael yr ysgol oedd Bethan gyda chynlluniau mawr i fod yn ysgrifenyddes i bennaeth cyfoethog, gyda digon o ddillad, pres a bechgyn i'w diddori. Ond teimlodd ei bod braidd yn rhy ifanc i wneud hynny ar y funud, felly cawsai waith yn y swyddfa fechan hon am dipyn, i lenwi'r amser.

"Oh! mi fydd digon o'r bechgyn yn cael prynu diod imi, ac i ddawnsio hefyd, heb ddim dadl.."

"Reit siŵr, ond paid â gwrando ar y bechgyn ifanc yna, Bethan, neu mi fyddi wedi meddwi cyn diwedd y noson," atebodd Sian.

"Na, na, 'rwyf wedi arfer digon gyda'r ddiod a'r bechgyn ifanc. Mae'n well gennyf fi y bechgyn hynaf, y rhai sy'n gwybod beth yw beth a phwy yw pwy."

"O, gwrando ar yr iâr yna," sibrydodd Elin, "un ar bymtheg ydi hi ac mae'n siarad fel tasa hi'n berchennog y lle 'ma – ugh!"

Plygodd Bethan y ffrog a'r siôl yn ôl yn y blwch, a rhoddodd ei chôt fawr amdani.

"Rydwi'n mynd 'nawr te, wela i chi fory gobeithio – ta ta."

"Ta, ta i ti'r......."

"Rwan, rwan, does dim eisiau bod fel yna, er mor fawr ydi Bethan," meddai Sian.

"Hogia' a dillad ydi'r unig bethau ar feddwl Bethan, ac mae hi'n troi fy stumog i bob tro y mae'n cribo ei gwallt a pheintio'i hwyneb," oedd ymateb Elin tuag ati.

Bore trannoeth, aeth pawb yn ddistaw i'w gwaith, pawb ond Bethan, wrth gwrs. 'Roedd yn rhaid iddi hi roi crib trwy ei gwallt hir, tywyll ac ychydig bowdwr ar ei hwyneb cyn dechrau gweithio.

"Noson fawr heno," meddai, wrth gerdded yn bwyllog i'r swyddfa.

"Mm" oedd yr unig ymateb.

"Oh, llawn bywyd fel arfer," ebe Bethan yn goeglyd.

Eisteddodd i lawr a dechreuodd ar ei gwaith yn llawn urddas.

"Mae Sioned yn dod i mewn heddiw," dywedodd Sian.

"Pwy ydi honno?" gofynnodd Bethan.

"Merch Mr. Roberts, y pennaeth," atebodd Meri.

"Oh, bobol mawr, mae'n siŵr y bydd hi'n dweud wrth bawb beth i'w wneud, ond nid y fi. Gwneud beth mae Mr. Roberts yn ei ddweud wrthyf y byddwn i bob amser."

"Ie," oedd yr ateb, "bob amser, ynte, Bethan". Gwenodd Bethan gan feddwl am y ddawns a'r hwyl a gâi y noson honno.

"Reit siŵr fod Sioned yn mynd i'r ddawns fel pawb arall," dechreuodd Bethan siarad eto.

"Na, nid yw hi yn un am fynd i ddawns. Mae Sioned yn hoffi darllen adref y rhan fwyaf o'r amser a mynd am dro gyda'i thad."

"O, sych ynte? Beth mae hi'n ddarllen? Y Beibl, mae'n siŵr."

"Paid â bod mor feirniadol, Bethan," brathodd Elin.

"Beirniadol! Hy, fuaswn i ddim yn iselhau fy hun wrth wneud y ffasiwn beth, yn enwedig i bobl mor goman â'r rhai sy'n gweithio yn y swyddfa.......... y cwt yma." Rhedodd allan i wneud paned o de iddi ei hun.

"Gad iddi fod. Fe ddaw yn ôl ymhen tipyn gyda dagrau yn ei llygaid," meddai Sian.

"Bydd yn siŵr iti," ebe Elin.

Erbyn amser cinio 'roedd Bethan wedi bod yn dweud pethau cas am Sioned, ei bod yn sych, ac yn reit siŵr yn hyll fel pechod gyda sbectol pot-jam ar ei thrwyn. Ni ddywedodd un o'r lleill ddim yn ei herbyn, a gadawsant iddi fwydro ar ei phen ei hun. Daeth yn amser i Sioned gyrraedd, a phan glywodd Bethan ei bod yn dod, aeth i gribo ei gwallt eto, a rhoi ychydig bowdwr ar ei hwyneb. Clywodd siarad yn y swyddfa ac agorodd y drws yn llawn balchder. Aeth ei hwyneb yn wyn fel y galchen pan welodd y ferch a'i hwynebai. Eisteddai Sioned mewn cadair, a gwelodd Bethan nad oedd gan y ferch goesau.

..........................

"Sut aeth y ddawns neithiwr, Bethan?" gofynnodd Mair gan ddisgwyl hanes dramatig y noson gynt.


"Es i ddim i'r ddawns," oedd ateb distaw Bethan.


"O, pam felly?"

Ni chafwyd ateb yr ail dro. Eisteddodd Bethan i'w gwaith heb gribo ei gwallt.

# HEBOG Bach

*Cyhoeddir y dudalen hon gyda chydweithrediad Gwasg Gwynedd, cyhoeddwyr HEBOG, y comic misol.*







Hen feic tad ei daid oedd gan Tudur
A'i deiars yn racs fel pot pupur;
Pan dorrodd y brêcs
Roedd ieir Mrs. Rakes
A'u plu fel corn fflêcs yn yr awyr!

**Fedrwch chi ddod o hyd i'r gwahaniaethau yn y ddau lun?**



Newidiwch Tref i Buan gan newid 1 llythyren ar y tro.


**Tref**


**- - - -**

**- - - -**

**- - - -**

**Buan**




# GWNEUD FFRINDIAU

**STEDDFOD YR URDD PORTHAETHWY '76**

n ddaw Eisteddfod Gen-thol yr Urdd i Borth-wy yn ystod wythnos f mis Mehefin, daw mil-o blant a phobl ifanc o han o Gymru i gystadlu ynddi. Ar ran Pwyllgor Llety a Chroeso, a gawn ni erfyn am eich cymorth chi i ddarparu llety rhad (swper, gwely a brecwast) i'r cystadleuwyr hyn. Yn y gorffennol, mae plant Gwynedd wedi derbyn croeso brwd a llety rhad mewn cartrefi ymhob ardal bron yng Nghymru tra'n mynychu'r Eisteddfod. Os medrwch ein helpu ar un neu fwy o'r nosweithiau hyn, sef Mehefin 1af, 2, 3, 4ydd, a wnewch chi gysylltu â'n cynrychiolwyr ni yn y cylch.

Dyma'u henwau : Bethel – Mrs. Mair Price, 5, Tan-y-Ffordd, ac yna cysylltir â'r canlynol trwy'r ysgolion : Llanberis – Mrs. Eirlys Pierce Llanrug – Mr. Cledwyn Williams. Penisarwaun – Mr. Len Jones. Deiniolen – Mr. W. Eames. Cwm-y-Glo – Mr. Eirwyn Jones.

Gyda llawer o ddiolch,

**Ann Morgan, Llywydd.**
**Jean Pleming, Ysgrifennydd.**

# CHWARAEON

CODI PWYSAU

## IEUAN YN ORAU ETO

**Yn 1960 enillodd Ieuan Owen bencampwriaeth Cymru am godi pwysau yn y dosbarth ysgafn, Bu'n amddiffyn ei deitl yn flynyddol ers hynny, ac ar yr 20fed o'r mis hwn, yn Llandeilo bu'n llwyddiannus am yr unfed tro ar bymtheg. 'Does neb yng Nghymru, felly, wedi ei guro er pan oedd yn 19 oed. Yn y cyfnod hwn bu hefyd yn bencampwr Prydain bedair gwaith a daeth â phedair medal adref o Chwaraeon y Gymanwlad.**

**Ieuan a Glyn Jones yw hyfforddwyr Clwb Codi Pwysau Llanrug, ond er ei enwogrwydd, nid ef yw unig seren y clwb. Bu pedwar aelod yn cystadlu yn y bencampwriaeth.**

Colli ei deitl fu hanes David Wyn Owen yn yr Adran Pwysau Plu – daeth yn ail. Pedwerydd oedd David Casey yn yr un dosbarth a Ieuan, ac Alan Roberts yn bumed yn y dosbarth Pwysau Canol.

Canlyniadau ardderchog o glwb bach sy'n cyfarfod mewn hen garej ynte? Y mae Llanrug yn flaenllaw ar fap codi pwysau Cymru, diolch i Ieuan a'i griw. Dyma ddarlun ohono'n codi i gadw ei deitl.



### DARTIAU

Y mae'r Bull, Deiniolen, ar frig yr ail gyngrhair a'u gobeithion yn uchel gan nad oes ond pedair gêm ar ôl i'w chwarae. Yn ystod y mis, trechwyd Clwb Eryri, Penisarwaun, y Wellington, y T.A. O. a'r Eagles, Caernarfon.

Mae'n rhaid llongyfarch dau chwaraewr ifanc sydd ar eu tymor cyntaf yn y Gynghrair, sef Ieuan Morris a Steve Owen am eu chwarae ardderchog.

Yn uchel yn y Gynghrair gyntaf enillodd y Castell, Llanberis, eu dwy gêm yn y mis, ond yn erbyn y Rhythallt, Llanrug, colli fu eu hanes. Peter Flanagan, Mike Griffiths a Jo Kelly yn ennill 3 gem, ond Gwilym Williams, Tony Sage, Gareth Roberts, Gwynfor Hughes ac R. Humphreys yn ennill 5 i Benybont.

### Y SIALENS

**Mae yna sôn o gwmpas Llanberis fod gêm bêl-droed fwya'r ganrif i'w chwarae yno ar ddydd Llun y Pasg. Dywedir fod y tîm oedd yn cynrychioli'r pentref yn 1964 wedi rhoi sialens i'r tîm presennol a'u bod yn bygwth curfa drom iddynt. Dylai hon fod yn gêm i'w chofio – ydach chi'n cofio pwy oedd un o amddiffynwyr Llanbêr yr adeg honno? Ia, neb llai na Golygydd yr Eco.**

### SNWCER

Yr ieuenctid sy'n mynd â'r gwobrau yng nghlybiau Snwcer Deiniolen a Llanrug y dyddiau hyn. Daeth tîm ieuanc iawn o glwb Deiniolen yn ail yng Nghynghrair Bangor a'r cylch, a bu tîm o blant ysgol Clwb Llanrug yn fuddugol yn erbyn Bethel a Deiniolen.

Tîm ieuenctid Deiniolen hefyd aeth â chwpan y Gynghrair eleni, a Leonard Parry a Barry Jones yn ennill y gystadleuaeth i barau. Y mae Eurwyn Grindley wedi cyrraedd rownd derfynol y bencampwriaeth i unigolion.

Yng nghystadleuaeth handicap Clwb Llanrug enillwyd y darian gan Geraint Roberts, y cwpan gan Emyr Owen, a phunt gan Clive Griffiths.

### YSGOL BRYNREFAIL

Bu tîm o enethod yr ysgol o dan hyfforddiant Mrs. Wroe yn fuddugol yng nghystadleuaeth ymarfer corff yr Urdd, adran Sir Gaernarfon. Nhw felly fydd yn cystadlu yn y Genedlaethol ym Mhorthaethwy.

Aelodau'r tîm yw Rose Welsky, Anwen Davies, Carolyn Davies, Julie Clarke, Carys Mai Jones, Carys Glyn Williams, Gwenno Jones, Marion Williams ac Annette Knox. Pob lwc iddynt yn y Borth.

Ar ôl eu hwythnos yn yr Alban, y mae sgiwyr yr ysgol yn ymarfer ar yr 'eira' plastig ym Mhlas y Brenin. Bu cynifer â 50 o'r plant yno ddwywaith yn ystod y mis.

Mis digon cymysg fu hwn i'r timau pêl-droed. Aeth tri thîm i Borthaethwy. Collodd un a bu'r ddau arall yn gyfartal. Curwyd Friars, Bangor, gan y tîm hynaf, a'r tîm iau, a cholli un ac ennill un fu eu hanes yn erbyn Caernarfon.

Collwyd y ddwy gêm yn erbyn Pwllheli hefyd, ond 'roedd y ffliw wedi amharu'n drwm ar dimau'r ysgol.

Y mae nifer fawr o'r bechgyn wedi ennill gwobr Cymdeithas Gymnasteg Prydain o dan hyfforddiant Mr. Dick Parry yn ystod y flwyddyn.

Ym mis Mawrth gwobrwywyd David Griffith a John Pritchard o Lanberis, a'r ddau frawd Kevin a Gwyndaf Jones o Ddeiniolen â'r wobr gyntaf. Hon yw'r uchaf o'r bedair gradd sydd i anelu amdanynt.

### PÊL-DROED

#### LLANRUG

**Myfyrwyr y Brifysgol ym Mangor oedd yr athrawon ar y 6ed o Fawrth yn dysgu Llanrug sut i roi'r bêl yn y rhwyd. Manteisiwyd ar y gwersi gan Gwyn Edwards a Hefin Pritchard, ond gan fod y Coleg wedi sgorio bedair gwaith, hwy fu'n fuddugol.**

**Roedd y wers wedi ei hanghofio erbyn y Sadwrn dilynol a Chricieth yn ennill am yr ail waith y tymor hwn. Perfformiad gwael oedd hwn gan Lanrug, a'r amddiffynfa yn sigledig dros ben. Richard Williams a sgoriodd yr un gôl iddynt, ond Cricieth yn sgorio dwy.**

**Yn Harlech yr oedd y gêm nesaf, a pherfformiad israddol eto gan Lanrug. Yn ffodus roedd safon chwarae Harlech yn waeth. Buddugoliaeth felly o ddwy gôl i un – Martin Thomas a Gwyn Edwards yn sgorio.**

**MAWRTH 27**
**Llanrug 5 Cricieth 0**

Dyma dalu'r pwyth yn ôl i Gricieth beth hynnag. Yn yr hanner cyntaf roedd y gwynt cryf yn erbyn Llanrug a gwnaeth yr amddiffynwyr yn dda i gadw'r sgôr yn 0–0 ar hanner amser.

Yn yr ail hanner, â'r gwynt o'r tu ôl iddynt, daeth y blaenwyr i rym a sgoriwyd 5 gôl ,– 2 gan Richard Williams a 3 gan Gwyn Edwards.

#### LLANBERIS

**Coleg y Brifysgol, Bangor, oedd gwrthwynebwyr Llanbêr hefyd ar y trydydd ar ddeg a'r ugeinfed o'r mis hwn yn ail grŵp cystadleuaeth Cwpan Deanfield.**

**Y gêm gyntaf ym Mangor, a'r myfyrwyr yn ennill o ddwy gôl i un ac yn haeddu eu buddugoliaeth mewn gêm ddigon cyffrous. Barry Pitts oedd sgoriwr Llanberis.**

Yn yr ail gêm, yn Llanberis, stori ddigon tebyg oedd hi yn yr hanner cyntaf, y myfyrwyr yn defnyddio'r bêl yn fedrus a hwy aeth ar y blaen. Anffawd y coleg a lwc i Lanberis oedd fod un o amddiffynwyr y Coleg wedi rhoi'r bêl yn ei rwyd ei hun – a chyfartal oedd y sgôr ar hanner amser. Yn fuan yn yr ail hanner rhoddodd Gwilym Williams Lanberis ar y blaen, a sgoriodd John Pritchard un arall. Aeth y gwynt o hwyliau tîm y Coleg. Agorodd y drysau a llifodd Llanberis trwyddynt. Barry Pitts (2), Ray Harding (2) a Meirion Williams yn gwneud y sgôr derfynol yn 8 – 1.

**MAWRTH 27**
**LLANBERIS 2**
**MOUNTAIN RANGERS 5**

**Mountain Rangers sydd ar ben y Gynghrair ond 'doedd fawr rhwng y timau yn yr hanner cyntaf. Dwy gôl gan y Rangers a Ray Harding yn ateb tros Lanberis.**

**Roedd cryfder y Rangers yn amlwg yn yr ail hanner a chafwyd tair gôl dda ganddynt, ac er ymladd dewr gan fechgyn Llanberis, un gôl yn unig gan Kelvin Jones oedd eu gwobr.**

### CYNGHRAIR GWYRFAI

Cynghrair ar gyfer bechgyn o dan 15 oed yw hon, a chynrychiolir yr ardal ynddi gan Ddeiniolen, Llanrug a Llanberis.

Deiniolen yn ddiau sydd ar ben y Gynghrair gan iddynt ennill pedair o'r bum gêm sydd wedi eu chwarae a dod yn gyfartal yn y llall. Mae'r hogia' wedi sgorio 42 gôl yn erbyn 6, a Wyn Evans wedi taro'r rhwyd 16 o weithiau.

Y mae tîm dan 15 oed yn Llanberis ers 8 mlynedd, diolch i Mr. T.J. Roberts (Twm John) sy'n rhoi ei fryd a'i amser i baratoi ieuenctid y pentref i gystadlu ar y maes pêl-droed. Ei hen fechgyn ef sy'n ffurfio asgwrn cefn tîm yr Aelwyd a'r tîm mawr.

Yn ystod y mis bu'r tîm yn chwarae pum gêm gan ennill dwy, colli dwy ac un yn gyfartal.

Dyma lun o'r tîm presennol.



### CWPAN PANTYFEDWEN

**AELWYD LLANGEFNI 1**
**AELWYD LLANBERIS 4**

**Dyma'r tro cyntaf i Lanberis gystadlu am y cwpan hwn, a thrwy ennill yn Llangefni maent yn y rownd gyn-derfynol.**

**Roedd dwy gôl dda gan Tony Thomas a dwy oddi ar y smotyn gwyn gan John Williams yn ddigon mewn gêm gyffrous i guro'r tîm fu yn y rownd derfynol bedair gwaith yn y bum mlynedd diwethaf.**

**Rhosllannerchrugog fydd y gwrthwynebwyr yn y rownd nesaf a gobeithir chwarae'r gêm yn Llanberis ar Ebrill 3.**